

**Arolygiad Urddas a Gofal
Hanfodol (dirybudd)**
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan: Adran
Damweiniau ac Achosion
Brys Nevill Hall

3 a 4 Rhagfyr 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb	4
5.	Canfyddiadau	7
	Ansawdd Profiad y Claf	7
	Cyflenwi Hanfodion Gofal	10
	Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth	21
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol	26
6.	Y Camau Nesaf.....	35
	Atodiad A.....	36

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol yn adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Nevill Hall, rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 3 a 4 Rhagfyr 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd rheoli staff ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn arolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn arolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y bwrdd iechyd
- Holiaduron AGIC wedi'u cwblhau
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau'r gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1 Hydref 2009 ac mae'n cynnwys ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Tor-faen a De Powys.

Agorwyd ysbyty cyffredinol dosbarth Nevill Hall ym 1969 ac mae'n darparu gwasanaethau cleifion mewnol, achosion dydd a chleifion allanol ynghyd â phob math o ymchwiliad. Mae Nevill Hall wedi ei leoli ar gyrion gorllewinol y Fenni ar ffordd A40 Aberhonddu ac mae'n gwasanaethu poblogaeth ddaearyddol sy'n cynnwys Tor-faen, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Phowys. Mae'r ysbyty'n ganolfan trawma difrifol neilltuedig ag adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae tua 50,000 o gleifion newydd yn mynychu'r adran Damweiniau ac Achosion Brys bob blwyddyn.

Roedd yr adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi'i rhannu'n bedair prif fan lle caiff cleifion eu trin ar adeg ein harolygiad:

- Y man anafiadau difrifol (wyth gwely) – lle mae staff yn trin cleifion sydd angen y sylw meddygol mwyaf brys.
- Y man mân-anafiadau (chwe gwely) – lle mae staff yn trin cleifion â mân-anafiadau. Ceir dau giwbicl 'gweld a thrin' ychwanegol yn y fan hon.
- Yr Uned Penderfyniadau Clinigol (wyth gwely) – lle mae staff yn asesu ac yn trin cleifion, gan wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth parhaus. Mae'r fan hon yn darparu ar gyfer cleifion ag anghenion llawfeddygol, meddygol a/neu seicolegol. Y cleifion yn y fan hon sy'n tueddu i aros am yr amser hiraf, rhwng 24 a 48 awr.
- Ystafelloedd dadebru (dwy) – ceir dau gilfan dadebru â'r holl offer yn yr adran lle caiff cleifion eu derbyn, yn aml o ambiwlansys, i gael eu dadebru.

Ceir dwy fan benodol arall ar gyfer cleifion yn yr adran hefyd:

- Derbynfa ac ystafell aros – lle mae cleifion yn cyfeirio eu hunain at yr adran ac yn aros am frysbenneu a thriniaeth
- Coridorau – defnyddir y mannau hyn fel mannau cadw i gleifion aros ar drolïau'r adran Damweiniau ac Achosion Brys, (yn bennaf ar gyfer cleifion a dderbynnir i'r adran o ambiwlansys). Ceir tîm staff yn y coridorau sy'n brysbenneu cleifion yn unol â'u hanghenion.

4. Crynodeb

Fe'n hysbyswyd gan gleifion yn gyffredinol eu bod yn fodlon iawn gydag ansawdd y gofal iddynt ei dderbyn ac yn enwedig gyda'r staff a wnaeth eu trin. Gwelsom staff yn bod yn foesgar a chwrtais gyda chleifion ac yn eu trin gyda pharch, yn ddieithriad. Gellid gwella amgylchedd a chyfleusterau'r ystafell aros er mwyn gwella ansawdd profiad y claf.

Gwelsom dîm staff sydd wedi ymrwymo i gyflenwi'r hanfodion gofal i ansawdd uchel. Caiff y staff eu herio'n sylweddol wrth wneud hynny gan yr amgylchedd ffisegol a'r galw am y gwasanaeth a bu rhai achlysuron pan effeithiodd hyn ar ofal cleifion. Y man anoddaf i'r staff ddarparu ansawdd uchel o ofal yw'r coridorau.

Gwelsom staff yn cyfathrebu â chleifion a dderbyniwyd i'r adran mewn ffordd garedig ac amyneddgar, gan esbonio eu triniaeth iddynt. Fodd bynnag, roedd diffyg cyfathrebiad a gwybodaeth ar gael i gleifion yn yr ystafell aros cyn ac ar ôl brysennu.

Gwelsom staff yn trin pob claf gyda pharch a charedigrwydd. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn gallu sicrhau preifatrwydd cleifion yn y coridorau. Mae hyn yn golygu bod hawliau'r cleifion hyn i breifatrwydd ac urddas yn cael eu peryglu'n ddifrifol. Mae'r coridorau'n amgylchedd annerbyniol ar gyfer triniaeth ac ymyriadau gofal.

Gwelsom staff yn annog annibyniaeth cleifion cyn belled â phosibl. Nid yw'r amgylchedd ffisegol yn hwyluso'r broses o hybu annibyniaeth cleifion.

Roedd llawer o gleifion yn cyrraedd yr adran gyda pherthnasau/gofalwyr a gwelsom sut roedd staff yn annog presenoldeb yr unigolion hyn. Mae lle cyfyngedig sydd ar gael yn y coridorau'n golygu bod heriau o ran lle i anwyliaid y cleifion hyn.

Ac eithrio'r cleifion hyn ar drolïau yn y coridorau, canfuwyd gennym fod yr holl fannau eraill yn cael eu rhedeg gydag ystyriaeth i geisio caniatáu i gleifion orffwyso cymaint â phosibl mewn amgylchedd Damweiniau ac Achosion Brys prysur. Fe'n hysbyswyd gan staff a chleifion bod adegau pan fydd yr adran yn rhedeg allan o ddillad gwely a gobenyddion sy'n effeithio ar gysur cleifion.

Fe'n hysbyswyd gan y rhan fwyaf o gleifion eu bod wedi derbyn lladdwyr poen yn gyflym. Canfuwyd un achos gennym lle nad oedd hyn wedi digwydd ac felly ni allem fod yn sicr bod hyn yn digwydd yn gyson. Caiff sgoriau poen cleifion eu cofnodi ond canfuwyd gennym nad oeddent bob amser yn cael eu hailwerthuso a'u cofnodi'n barhaus er mwyn sicrhau mesurau rheoli poen priodol dros amser.

Gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion gyda'u hanghenion gofal personol lle y gallent. Bwriedir gosod rhagor o gyfleusterau ymolchi i gynorthwyo cleifion i gynnal eu trefn gofal personol.

Gwelsom fod prydau poeth a byrbrydau ar gael i gleifion. Canfuwyd gennym nad oedd digon o aelodau staff yn cynorthwyo ar adeg prydau bwyd bob amser oherwydd y llwyth gwaith cyffredinol a blaenoriaethau triniaeth eraill yn yr adran ar y pryd. Nid oedd siartiau bwyd a hylif ar gyfer y cleifion hynny mewn perygl yn cael eu diweddarau'n gyson. Mae cyflenwadau iechyd y geg priodol a digonol ar gael yn yr adran. Dylid cynnal asesiadau iechyd y geg ar gyfer y cleifion hynny sy'n aros yn yr adran am gyfnod hwy.

Yn gyffredinol, gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion gyda'u hanghenion toiled yn brydlon. Mae systemau ar waith i asesu risg cleifion o ddatblygu briwiau pwysu ac i gael mynediad at offer fel matresi lleddfu pwysau pan fo'u hangen. Ni allem fod yn sicr bod y systemau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar gyfer pob claf. Bu'n rhaid i gleifion aros am amser maith ar droliâu weithiau sy'n cynyddu eu risg o ddatblygu briwiau pwysu.

Roedd yr adran Damweiniau ac Achosion Brys yn rheoli nifer fawr o gleifion gyda thîm staff a oedd yn cynnwys cyfran uchel o nyrsys newydd gymhwyso. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff presennol mewn amgylchedd sydd eisoes yn anodd. Roedd staff rheoli yn gweithio i geisio gwella'r sefyllfa ond nid oedd hyn yn cael ei gyfathrebu i staff ar y rheng flaen bob amser. Roedd y staff yn cael anawsterau difrifol yn sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol diweddaraf. Gofynnwyd i'r bwrdd iechyd adolygu trefniadau ar gyfer asesu cleifion ar goridorau trwy lythyr sicrhau ar unwaith. Ar adeg yr adroddiad hwn, roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd digonol i AGIC y rhoddwyd sylw i'r holl broblemau.

Ceir systemau ar waith i hysbysu am ddigwyddiadau a monitro mannau gofal cleifion a gwelsom rai enghreifftiau o sut y defnyddiwyd y canlyniadau i wella gofal cleifion. Nid oedd yn amlwg sut roedd yr hyn a ddysgir o'r systemau hyn yn cael ei rannu gyda'r tîm staff yn barhaus er mwyn sicrhau cefnogaeth a chysondeb. Canfuwyd gennym fod y tîm staff yn rhagorol o ran blaenoriaethu clinigol a sicrhau bod llwybrau clinigol yn cael eu dilyn. Gwelsom hefyd enghreifftiau o arfer dau o ran rheoli triniaeth cleifion agored i niwed, er enghraifft, cynllunio triniaeth barhaus un oedolyn ag anghenion iechyd meddwl. Nid yw'r amgylchedd Damweiniau ac Achosion Brys yn addas ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed a chanfuwyd gennym nad yw'r holl feddyginiaethau ac offer wedi'u storio'n ddiogel i atal unigolion heb ganiatâd rhag cael gafael arnynt. Gofynnwyd i'r bwrdd iechyd roi sylw i bryderon gyda meddyginiaethau ac offer trwy lythyr sicrhau ar unwaith. Ar adeg yr adroddiad

hwn, roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd digonol i AGIC y rhoddwyd sylw i'r holl broblemau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Fe'n hysbyswyd gan gleifion yn gyffredinol eu bod yn fodlon iawn gydag ansawdd y gofal iddynt ei dderbyn ac yn enwedig gyda'r staff a wnaeth eu trin. Gwelsom staff yn bod yn foesgar a chwrtais gyda chleifion ac yn eu trin gyda pharch, yn ddieithriad. Gellid gwella amgylchedd a chyfleusterau'r ystafell aros er mwyn gwella ansawdd profiad y claf.

Yn ystod ein harolygiad, gwahoddwyd cleifion i gwblhau ein holiaduron i'n hysbysu am eu profiadau yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys. Cwblhawyd y rhain trwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb neu fe'u dychwelwyd i ni drwy'r post. Cwblhawyd holiaduron gan ddeg o gleifion. Hefyd, cawsom sgysiau anffurfiol gyda nifer o gleifion a siaradwyd â 21 o gleifion, ym mhob rhan o'r adran, yn y modd hwn ar yr ail ddiwrnod.

Yn gyffredinol, roedd cleifion a'u perthnasau yn llawn canmoliaeth i'r staff a oedd yn eu trin, ar draws pob rhan o'r adran.

Roedd y sylwadau i ni eu derbyn am y staff yn cynnwys:

'Staff y dderbynfynfa'n barod iawn eu cymwynas'. (Dau glaf yn yr ystafell aros).

'Staff yn garedig bob amser'. (Claf yn yr ystafell aros).

'Rhaid aelodau staff yn gyfeillgar iawn. Nid yw eraill yn annerch cleifion yn uniongyrchol'. (Gofalwr yn trafod triniaeth ei blentyn anabl yn yr ystafell aros).

'Mae'r staff yma'n ardderchog'. (Roedd y claf hwn yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol ac yn ddefnyddiwr cadair olwyn a ddywedodd bod y staff wedi siarad ag ef yn uniongyrchol).

'Mae'r staff yn fedrus, yn glên ac yn barod iawn eu cymwynas. Nid yw unrhyw beth yn ormod o drafferth iddyn nhw'. (Claf yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol).

'Er bod y staff yn glên, nid oedden nhw'n ystyriol o'm hanghenion, h.y. deffro am 1am a 2am i roi bandiau meddygol arnaf i pan gyrhaeddais i yn yr adran am 6pm y noson cynt'. (Claf yn yr ystafell aros).

'Nid wyf yn cofio ei bod mor brysur yma o'r blaen ond mae'r staff yn barod iawn eu cymwynas'. (Perthynas yn yr Adran Mân-anafiadau).

'Mae'r staff yn wych gyda phlant. Ni fyddwn i'n mynd i ysbyty arall gyda phlant. Mae'r staff yn glên iawn. Maen nhw'n gwrando. Maen nhw'n ofalgar'.
(Perthynas yn yr Adran Mân-anafiadau).

'Mae'r staff yn ardderchog bob amser'. (Gofalwr yn cynorthwyo claf yn y coridorau a drosglwyddwyd i'r Adran Anafiadau Difrifol wedyn).

Gwelsom staff yn bod yn gwrtais gyda chleifion a'u hymwelwyr. Gwelsom staff yn rhyngweithio gyda chleifion mewn ffordd garedig a gofalgarg yn ddieithriad, er bod y staff yn brysur iawn.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn teimlo bod cyfleusterau'r ystafell aros yn anfodddhaol. Nid oedd y toiled menywod neilltuedig yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad. Fe'n hysbyswyd gan un teulu hefyd bod yn rhaid iddynt ddiwallu anghenion toiled eu plentyn anabl yn y car gan nad oedd toiledau'r ystafell aros yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Ar ôl ymchwilio, roedd toiled anabl yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys, yn agos at y drws ar glo sy'n gwahanu'r man aros, ond ni hysbyswyd y teulu am hyn.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu amgylchedd a chyfleusterau'r ystafell aros er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio a bod gwybodaeth berthnasol i gleifion ar gael ac yn cael ei chyfathrebu i gleifion a'r cyhoedd.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion a chadarnhawyd gan ein harsylwadau nad oedd cleifion yn aros yn hir i gael eu brysbennu. Ar ôl brysbennu, a chyn y cam nesaf o driniaeth, roedd yr amseroedd aros yn cynyddu ac ar yr ail ddiwrnod, (yn y bore), cawsom sgysiau â chleifion a oedd wedi bod yn aros hyd at 2 awr 45 munud hyd hynny ac nad oeddent wedi cael eu gweld eto o hyd. Nid oedd rhai cleifion i ni siarad â nhw'n deall yn llawn ble'r oeddent yn y broses rhwng cael eu derbyn i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys ac yna naill ai cael eu derbyn i ward neu eu rhyddhau i fynd adref. Nodwyd gennym fod y staff yn eithriadol o brysur ac yn treulio cymaint o amser â phosibl gyda chleifion unigol, ond roedd cyfnodau maith weithiau lle'r oeddent yn ymdrin â chleifion eraill ac nad oeddent ar gael i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ofal.

Fe'n hysbyswyd gan staff y dderbynfa eu bod wedi derbyn hyfforddiant i nodi a ddylai claf gael ei weld fel achos brys a sut i ddyrchafu unigolyn i nyrs brysbennu pe baent yn gweld claf yn gwaethygu. Fodd bynnag, nid oedd cynllun yr ystafell aros yn galluogi staff y dderbynfa na'r staff clinigol i fonitro cleifion yn rhwydd ar gyfer arwyddion o waethygu. Ni allem fod yn sicr felly y byddai staff yn nodi cleifion yn gwaethygu yn ystafell aros adran mor brysur.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried a yw lefelau staffio'n briodol i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld cyn gynted â phosibl ar ôl brysbennu a sut i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion am gynnydd eu triniaeth.

Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried sut ellir monitro cleifion sy'n aros i gael eu gweld yn y dderbynfa'n ddigonol i nodi unrhyw waethygiad i'w cyflyrau.

Cyflenwi Hanfodion Gofal

Gwelsom dîm staff sydd wedi ymrwymo i gyflenwi'r hanfodion gofal i ansawdd uchel. Caiff y staff eu herio'n sylweddol wrth wneud hynny gan amgylchedd ffisegol yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a'r galw am y gwasanaeth a bu rhai achlysuron pan effeithiodd hyn yn negyddol ar ofal cleifion. Y man anoddaf i'r staff ddarparu ansawdd uchel o ofal yw'r coridorau.

Cyfathrebu a gwybodaeth

Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn ynglŷn â'u gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion

Gwelsom staff yn cyfathrebu â chleifion a dderbyniwyd i'r adran mewn ffordd garedig ac amyneddgar, gan esbonio eu triniaeth iddynt. Fodd bynnag, roedd diffyg cyfathrebiad a gwybodaeth ar gael i gleifion yn yr ystafell aros cyn ac ar ôl brysbennu.

Roedd diffyg gwybodaeth berthnasol a chyfredol yn yr ystafell aros. Gwelsom y cedwir rhai taflenni gwybodaeth ar stondin ond mae'r rhain yn brin. Nid oedd gan gleifion unrhyw fynediad at unrhyw wybodaeth yn yr ystafell aros am yr adran Damweiniau ac Achosion Brys, sut mae'r broses yn gweithio na'r cyfleusterau sydd ar gael. Nid oedd un teulu, er enghraifft, yn ymwybodol bod toiledau i bobl anabl ar gael iddynt ar ochr arall y drws ar glo yn arwain o'r dderbynfa.

Nid oedd rhai cleifion i ni siarad â nhw yn yr ystafell aros yn deall ble'r oeddent yn y broses o gael eu brysbennu, eu trin a'u hatgyfeirio ar ward neu gael eu rhyddhau i fynd adref. Fe'n hysbyswyd gan rai cleifion eu bod wedi cael eu gweld, y gofynnwyd iddynt aros yn yr ystafell aros ac nad oeddent yn eglur am yr hyn fyddai'n digwydd nesaf. Unwaith roeddent yn yr adran, fodd bynnag, gwelsom staff yn esbonio eu triniaeth a'u rhyddhad i gleifion. Nid oedd yr hysbysfwrdd diweddarau awtomatig sy'n hysbysu cleifion am amseroedd aros yn yr ystafell aros yn cael ei defnyddio ar ail ddiwrnod yr arolygiad. Roedd hyn yn golygu, ac eithrio gofyn i staff y dderbynfa, nid oedd gan gleifion unrhyw ffordd arall o gael gafael ar wybodaeth am y broses neu ba mor hir y gallai fod yn rhaid iddynt aros.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu gwybodaeth berthnasol gyfredol i gleifion yn yr ystafelloedd aros. Cyngorir y bwrdd iechyd hefyd i ystyried sut y

gellir rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion yn yr ystafell aros am eu cynllun triniaeth ac amseroedd aros.

Mae dolen sain ar gael yn y dderbynfa fel y gall y staff gyfathrebu â chleifion ag anawsterau clywed. Ceir nifer o aelodau staff sy'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg gyda chleifion. Fe'n hysbyswyd gan y staff hefyd bod amrywiaeth eang o gyfieithwyr ar y pryd ar gael iddynt yn ôl y gofyn. Mae hyn yn golygu bod systemau ar waith i gynorthwyo'r staff i gyfathrebu â phobl ag anghenion ychwanegol.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion a pherthnasau y byddent yn gofyn i'r staff am y broses o sut i wneud cwyn, pe baent yn dymuno gwneud hynny. Ni welsom y weithdrefn gwynion wedi'i harddangos yn ystafelloedd aros cleifion na bod cyflenwad o ffurflenni cwynion ar gael. Mae hyn yn golygu nad oes gan gleifion fynediad rhwydd at wybodaeth am gwynion.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud gwybodaeth am gwynion yn gwbl hygyrch i gleifion.

Parchu pobl

Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a medru cymryd penderfyniadau cytbwys, a rhaid i'r gofal a ddarperir gymryd anghenion, galluoedd a dymuniadau'r claf i ystyriaeth.

Gwelsom staff yn trin pob claf gyda pharch a charedigrwydd. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn gallu sicrhau preifatrwydd cleifion yn y coridorau. Mae hyn yn golygu bod hawliau'r cleifion hyn i breifatrwydd ac urddas yn cael eu peryglu'n ddifrifol. Mae'r coridorau'n amgylchedd annerbyniol ar gyfer triniaeth ac ymyriadau gofal.

Mae'r staff yn cyflwyno eu hunain ac yn annerch cleifion gan ddefnyddio eu dewis o enw. Gwelsom staff yn bod yn garedig a thrugarog tuag at gleifion yn ddieithriad. Er enghraifft, gwelsom staff yn cynorthwyo un claf dryslyd mewn ffordd arbennig o sensitif.

Gwelsom staff yn bod yn synhwyrol wrth ryngweithio â chleifion ac wrth rannu gwybodaeth bersonol rhwng aelodau tîm wrth drosglwyddo. Mae'r staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ddarparu cymorth gyda gofal personol neu archwiliadau o natur bersonol mewn cilfannau trwy dynnu llenni o amgylch y gwelyau.

Fodd bynnag, roedd y staff yn cael trafferth i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ofalu amdanynt yn y coridorau oherwydd yr heriau o'u gweld yn y math hwn o amgylchedd ffisegol. Er enghraifft, roedd yn rhaid i'r tîm brysbennu yn y man hwn ofyn i gleifion am fanylion personol pan roedd cleifion eraill yn disgwyl i gael y gweld gerllaw ac roedd staff ac ymwelwyr yn defnyddio'r coridorau fel ffordd o gyrraedd rhannau eraill o'r adran. Gwelsom fod rhai cleifion ar goridorau'n sâl iawn ac roedd rhai perthnasau wedi cynhyrfu; a bu'n rhaid rheoli'r achosion hyn, pan roedd cleifion ar eu mwyaf agored i niwed, ar goridor lle'r oedd llawer o bobl yn aros neu'n symud drwyddo.

Ni ellid asesu cleifion ar y coridor yn iawn bob amser gan nad oedd staff yn gallu dadwisgo cleifion, oherwydd diffyg preifatrwydd. Er i staff ein hysbysu eu bod yn dod o hyd i fan preifat i asesu cleifion pan fo angen, nid oedd mannau ar gael bob amser. Mae hyn yn golygu efallai na fydd staff yn gallu nodi a gweld mannau pwyso, clwyfau, camffurfiadau neu chwyddau yn llawn bob amser. Mewn un achos, gwelsom archwiliad pwysedd gwaed yn cael ei gyflawni gan roi'r cyff dros siwmpwr drwchus y claf, a fyddai'n arwain at ddarlleniad anghywir.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r driniaeth o gleifion mewn coridorau er mwyn ystyried sut ellir cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn yr amgylchedd hwn.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y gall staff gynnal asesiadau cleifion llawn a chywir, gan ddadwisgo cleifion pan fo angen.

Hyrwyddo annibyniaeth

Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r person wrth wneud y mwyaf o'u gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.

Gwelsom staff yn annog annibyniaeth cleifion cyn belled â phosibl. Nid yw'r amgylchedd ffisegol yn hwyluso'r broses o hybu annibyniaeth cleifion.

Gwelsom staff yn annog cleifion i fod mor annibynnol â phosibl, cyn belled ag yr oedd eu cyflwr yn ei ganiatáu. Roedd coridorau a chilfannau'n anniben oherwydd presenoldeb offer, cyflenwadau a throlïau oherwydd diffyg lle storio yn yr adran. Roedd cleifion yn aros ar drolïau yn golygu bod y coridorau'n llawn ac yn brysur. Nid yw hyn yn hwylus i alluogi cleifion i symud yn annibynnol ac yn ddiogel.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu'r amgylchedd i ystyried ble gellir gwneud mannau storio ar gael.

Gwelsom arddangosiad dementia a oedd yn esbonio cynllun lle mae staff yn defnyddio symbol blodyn ar welyau cleifion i ddynodi bod claf yn ddryslyd (ac efallai bod angen amser a chymorth ychwanegol arno gan staff). Ni welsom hyn yn cael ei weithredu gydag unrhyw gleifion yn ystod ein hamser yn yr adran. Er i ni weld staff yn cynorthwyo cleifion drslyd a'i hail-gyfeirio mewn ffordd garedig a gofalgarg, nid oedd yr amgylchedd wedi'i drefnu i fod yn hygyrch i gleifion â dryswch neu ddementia.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wneud yr amgylchedd mor hygyrch â phosibl i'r cleifion hynny â dementia a/neu ddryswch.

Mae offer arbenigol ar gael i gleifion ei ddefnyddio, er enghraifft, gwelsom rai matresi aer yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, prin oedd y dewis i gleifion o ran ble y gallent aros neu gael eu gweld, gan fod holl rannau'r adran yn fach â lle cyfyngedig rhwng pob man/ciwbicl cleifion.

Perthnasau

Rhaid annog pobl i gadw eu cysylltiad gyda'u teulu a'u cyfeillion a datblygu perthynas ag eraill yn unol â'u dymuniadau.

Roedd llawer o gleifion yn cyrraedd yr adran gyda pherthnasau/gofalwyr a gwelsom sut roedd staff yn annog presenoldeb yr unigolion hyn. Mae lle cyfyngedig sydd ar gael yn y coridorau'n golygu bod heriau o ran lle i anwyliaid y cleifion hyn.

Gwelsom fod y staff yn annog presenoldeb perthnasau/gofalwyr, gan barchu a gwerthfawrogi'r help y gallant ei gynnig. Er enghraifft, gwelsom berthnasau yn cynorthwyo eu hanwyliaid i fwyta ac yfed.

Mae asesu cleifion ar drolïau yn y coridorau'n creu heriau o ran cleifion yn cynnal eu perthynas ag anwyliaid, oherwydd y prinder lle sydd ar gael. Gwelsom yn aml fod yn rhaid i berthnasau sefyll yn y coridorau am gyfnodau hir o amser gan mai prin oedd y cadeiriau a oedd ar gael. Gwelsom staff yn ceisio cynnwys perthnasau cymaint â phosibl mewn amgylchedd anodd iawn.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu sut ellid cynnig lle priodol i anwyliaid cleifion pan fyddant yn disgwyl i gael eu gweld ar drolïau.

Mae dwy ystafell ar gael i berthnasau, un nesaf at yr ystafell ddadebru a man lle gallai perthnasau weld pobl a oedd wedi marw. Mae'r ystafelloedd hyn cynnig mannau preifat da i berthnasau eu defnyddio, a cheir ynddynt ddodrefn meddal a ffonau i wneud galwadau.

Gorffwys, cysgu a gweithgareddau

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl er mwyn iddynt fedru gorffwys a chysgu.

Ac eithrio'r cleifion hynny ar droliau yn y coridorau, canfuwyd gennym fod yr holl fannau eraill yn cael eu rhedeg gydag ystyriaeth i geisio caniatáu i gleifion orffwysu cymaint â phosibl mewn amgylchedd Damweiniau ac Achosion Brys prysur. Fe'n hysbyswyd gan staff a chleifion bod adegau pan fydd yr adran yn rhedeg allan o ddillad gwely a gobenyddion sy'n effeithio ar gysur cleifion.

Mae natur adran Damweiniau ac Achosion Brys yn golygu nad yw mannau wedi'u trefnu mewn ffordd sy'n galluogi cleifion i orffwysu a chysgu. Roedd hyn yn arbennig o amlwg o ran cleifion a oedd yn aros am driniaeth ar droliau nad oeddent yn gallu gorffwysu oherwydd gweithgareddau a oedd yn cael eu cyflawni nesaf atynt ar y coridorau. Fe'n hysbyswyd gan staff, pan roedd cleifion ar droliau yn aros dros nos, eu bod yn eu gwrthio i fannau sydd ar gael oddi ar goridau lle bo hynny'n bosibl, er mwyn eu galluogi i orffwysu. Dywedodd un claf wrthym, fodd bynnag, ei fod wedi aros dros nos ar droli yn y coridor. Roedd hyn oherwydd prinder lle, galw cleifion a heriau amgylchedd bach.

Gwelsom gleifion yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol a'r ardal anafiadau difrifol yn gorffwysu. Er bod y mannau hyn yn brysur, roedd y timau'n drefnus ac yn ddigyffro a gwnaed cyn lleied o sŵn â phosibl.

Canfuwyd gennym yn ystod ein harolygiad bod y cypyrddau ddillad gwely'n llawn. Fodd bynnag, dywedodd sawl claf ac aelod o staff bod adegau pan roeddent yn rhedeg allan o ddillad gwely ac, yn fwyaf aml, gobenyddion. Dywedodd un claf wrthym ei fod wedi gofyn am flanced ychwanegol ac ni ddarparwyd hon.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod cypyrddau ddillad gwely'n llawn bob amser er mwyn sicrhau cysur cleifion ac annog gorffwys.

Sicrhau cysur, lliniaru poen

Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac yn rhydd rhag poen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.

Fe'n hysbyswyd gan y rhan fwyaf o gleifion eu bod wedi derbyn lladdwyr poen yn gyflym. Canfuwyd un achos gennym lle nad oedd hyn wedi digwydd ac felly ni allem fod yn sicr bod hyn yn digwydd yn gyson. Caiff sgoriau poen cleifion eu cofnodi ond canfuwyd gennym nad oeddent bob amser yn cael eu hail-werthuso a'u cofnodi'n barhaus er mwyn sicrhau mesurau rheoli poen priodol dros amser.

Canfuwyd gennym fod y staff yn ymatebol i'r cleifion hynny mewn llawer iawn o boen ac yn eu trin gyda meddyginiaeth briodol. Fodd bynnag, canfuwyd un person gennym yr aseswyd ei fod mewn poen cymedrol wrth frysbenneu ond a arhosodd dros awr am analgesia gan feddyg. Roedd Cyfeiriadau Grŵp Cleifion ar waith wrth frysbenneu'n golygu bod yr awdurdod gan nyrsys i allu rhoi lladdwyr poen ond ni wnaethpwyd hyn yn yr achos hwn. Ni allem fod yn sicr felly bod yr holl gleifion yn gallu cael mynediad at laddwyr poen yn gyflym yn gyson.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys a meddygon yn ymateb i sgoriau poen cleifion wrth frysbenneu, yn rhoi lladdwyr poen pan fo'u hangen ac yn gwerthuso effeithiolrwydd lladdwyr poen i gleifion.

Canfuwyd gennym trwy edrych ar ddogfennau bod y staff yn cofnodi sgoriau poen cleifion wrth frysbenneu i asesu'r driniaeth briodol. Ni welsom nodiadau yn y dogfennau i ddangos bod sgoriau poen cleifion yn cael eu hailasesu neu ei hail-werthuso ar gyfer effeithiolrwydd a thriniaeth barhaus.

Argymhelliad

Dylai staff werthuso a chofnodi sgoriau poen parhaus cleifion er mwyn sicrhau bod cynlluniau rheoli poen ar waith pan fo'u hangen a'u bod yn trin poen yn briodol ac yn effeithiol dros amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r cleifion hynny sy'n aros yn yr adran am gyfnodau sylweddol o amser.

Glendid personol, ymddangosiad a gofal traed

Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol ag y bo modd o ran gofalu am eu glendid personol, ymddangosiad a thraed.

Gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion gyda'u hanghenion gofal personol lle y gallent. Bwriedir gosod rhagor o gyfleusterau ymolchi i gynorthwyo cleifion i gynnal eu trefn gofal personol.

Gelsom fod y staff yn cynorthwyo cleifion gyda'u hanghenion gofal personol lle bo hynny'n bosibl, ond yn blaenoriaethu anghenion gofal a thriniaeth brys dros hyn. Mae hyn i'w ddisgwyl mewn adran Damweiniau ac Achosion Brys lle mae cleifion yn bresennol am gyfnodau byr o amser yn unig.

Gwelsom fod cleifion yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn gwisgo eu dillad eu hunain neu yna'r ysbyty ac roeddent yn ymddangos yn lân ac yn derbyn gofal da. Gwelsom fod stoc o sebon a llieiniau ar gael i gleifion eu defnyddio.

Mae cawod ar gael yn yr ardal anafiadau Difrifol. Esboniodd y staff y bwriedir gosod cawod yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol oherwydd cynnydd i nifer y cleifion arhosiad hir er mwyn cynorthwyo i ddiwallu anghenion gofal personol cleifion.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan gleifion fynediad at gyfleusterau addas i gynorthwyo gyda'u hanghenion gofal personol, yn enwedig rhai cleifion sydd bellach yn aros yn yr adran am gyfnodau hwy o amser.

Bwyta ac yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n diwallu eu gofynion maethol a phersonol a bod cleifion yn cael unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Gwelsom fod prydau poeth a byrbrydau ar gael i gleifion. Canfuwyd gennym nad oedd digon o aelodau staff yn cynorthwyo ar adeg prydau bwyd bob amser oherwydd y llwyth gwaith cyffredinol a blaenoriaethau triniaeth eraill yn yr adran ar y pryd. Nid oedd siartiau bwyd a hylif ar gyfer y cleifion hynny mewn perygl yn cael eu diweddarau'n gyson.

Canfuwyd fod yr adran wedi addasu i'r hyd cynyddol o amser y mae cleifion yn ei dreulio yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys cyn cael eu derbyn i wardiau ac roedd newidiadau wedi'u gwneud yn seiliedig ar archwiliad maethgol. Ceir cegin fach yn yr ystafell staff yn yr adran lle gellir paratoi diodydd poeth a defnyddir troli fwyd yn ystod pob pryd bwyd i weini prydau'r cleifion erbyn hyn. Cynigir prydau poeth, brechdanau a byrbrydau i gleifion.

Esboniodd y staff bod jygiau dŵr yn cael eu hail-lenwi ar bob shift a bod y cleifion hynny nad ydynt eisiau dŵr yn cael cynnig dewis arall. Gellir archebu

deietau gweadog i gleifion ag anawsterau llyncu ar gais a gwelsom fod y prydau'n addas i gleifion diabetig. Mae ychwanegiadau diod cyfnerthedig ar gael ar gais hefyd.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn falch o gael cynnig prydau poeth yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys, er i rai cleifion ddweud bod eu prydau'n oer. Gwelsom amser pryd bwyd a gwelsom fod prinder staff ar gael i gynorthwyo cleifion i fwyta ac yfed. Roedd un aelod o staff yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn gweini prydau ac yn cynorthwyo cleifion i fwyta hefyd. Felly, ar yr achlysur i ni ei weld, bu'n rhaid iddo adael y droli am gyfnod sylweddol o amser i gynorthwyo un person i fwyta ei bryd. Roedd hyn yn golygu bod amser i'r bwyd oeri er bod y bwyd yn cael ei gadw ar droli poeth. Hefyd, gwelsom glaf arall yn cael trafferth yn bwyta ei bryd ar y coridor ac nid oedd staff ar gael i gynorthwyo yn ystod ein harsylwadau.

Er bod mwyafrif y staff a oedd yn gweini prydau'n gwisgo dillad diogelwch priodol, gwelsom un aelod o staff nad oedd yn gwisgo unrhyw ddillad diogelwch. Fe'n hysbyswyd gan ddau glaf a gwelsom hefyd na chawsant gynnig llieiniau gwlyb i olchi eu dwylo cyn bwyta.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y nodir pan fo angen cymorth ar gleifion i fwyta ac yfed a bod staff digonol i gynorthwyo. Dylai staff sy'n cynorthwyo gyda phrydau wisgo dillad diogelwch priodol a sicrhau y cynigir llieiniau gwlyb i gleifion i olchi eu dwylo cyn bwyta.

Gwelsom fod asesiadau risg maethgol ar waith ar gyfer sawl calf a oedd yn aros yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol ond roedd y cofnodion yn anghyson. Er enghraifft, pan nodwyd bod cleifion mewn perygl a bod siartiau bwyd a hylif ar waith, nid oedd cofnodion wedi'u diweddarau'n gyson.

Argymhelliad

Pan nodir fod cleifion mewn perygl o ran eu hanghenion maethgol, dylid cwblhau dogfennau yn gyson a diweddarau siartiau bwyd a hylif er mwyn sicrhau bod eu hanghenion maethgol yn cael eu diwallu.

Iechyd a glendid geneuol

Rhaid cefnogi pobl i gynnal cegau iachus a chyfforddus a dannedd a deintgig sy'n rhydd o boen, gan eu galluogi i fwyta'n dda ac atal problemau cysylltiedig.

Mae cyflenwadau iechyd y geg priodol a digonol ar gael yn yr adran. Dylid cynnal asesiadau iechyd y geg ar gyfer y cleifion hynny sy'n aros yn yr adran am gyfnod hwy.

Gwelsom gyflenwadau o bast dannedd, brwsys dannedd a photiau dannedd gosod ar y ward ac mae'r staff yn eu dosbarthu i gleifion yn ôl yr angen. Gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion gydag iechyd y geg ar yr un pryd â chynnig cymorth gyda gofal personol.

Nid oedd cynlluniau gofal i gadw cegau cleifion yn iachus a chyfforddus ar waith oherwydd natur fer arosiadau cleifion. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod rhai cleifion yn aros yn yr adran am gyfnodau cynyddol o amser, yn enwedig yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol.

Argymhelliad

Dylid cyflwyno asesiadau iechyd y geg priodol, yn enwedig ar gyfer y cleifion hynny sy'n aros yn yr adran am gyfnodau o amser hyd at 24 awr er mwyn sicrhau y diwellir eu hanghenion gofal iechyd y geg.

Anghenion toiled

Rhaid rhoi cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.

Yn gyffredinol, gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion gyda'u hanghenion toiled yn brydlon.

Dywedodd un claf wrthym y bu'n rhaid iddo aros am gymorth gyda'i anghenion toiled, gan ddweud *"Gofynnais am y toiled, arhosais fwy na hanner awr, ac yna daethpwyd â phadell wely i mi"*. Yn gyffredinol, fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan gleifion a gwelsom staff yn ymateb yn brydlon i gynorthwyo cleifion i fynd i'r toiled.

Nid oedd unrhyw asesiadau ymataliaeth wedi'u cwblhau ar gyfer cleifion yn y man dadebru (lle'n briodol), a'r mannau mân-anafiadau ac anafiadau difrifol, gan nad yw'r rhain yn rhan o ddogfennau nyrsio'r adran Damweiniau ac Achosion Brys. Fodd bynnag, roedd staff nyrsio'n cynnal asesiadau ymataliaeth ar gyfer cleifion yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol os rhagwelwyd y byddent yn cael eu derbyn i wardiau cleifion mewnol.

Gwelsom fod digonedd o gyflenwadau anymataliaeth i gleifion eu defnyddio. Roedd y comodau i ni weld yn cael eu defnyddio yn lân. Fodd bynnag, gwelsom

nad oedd system ar waith i ddynodi eu bod wedi cael eu glanhau ac yn barod i'w defnyddio, (trwy ddefnyddio tâp gwyrdd er enghraifft).

Argymhelliad

Dylid rhoi system ar waith fel y gall staff weld yn rhwydd pa gomodau sydd wedi cael eu glanhau ac yn barod i'w defnyddio.

Rhwystro briwiau pwyso

Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w rhwystro rhag datblygu briwiau pwyso.

Mae systemau ar waith i asesu risg cleifion o ddatblygu briwiau pwyso ac i gael mynediad at offer fel matresi lleddfu pwysau pan fo'u hangen. Ni allem fod yn sicr bod y systemau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar gyfer pob claf. Bu'n rhaid i gleifion aros am amser maith ar drolïau weithiau sy'n cynyddu eu risg o ddatblygu briwiau pwyso.

Gwelsom fod y staff yn dilyn system sgorio waterlow (sy'n nodi risg a amcangyfrifir yn gysylltiedig â datblygiad briw pwyso mewn claf penodol) wrth frysbenno. Rhoddodd staff asesiadau risg unigoleddig ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn aros am gyfnodau hwy o amser, fel cleifion yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol er enghraifft, a gwelsom y rhain yn cael eu defnyddio.

Gwelsom fod y staff wedi asesu'r rhai mewn mwyaf o angen a, phan yn bosibl, eu bod wedi dod o hyd i welyau maint llawn iddynt a matresi aer yn hytrach na throlïau'r adran Damweiniau ac Achosion Brys. Gwelsom yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol y darperir matresi aer yn bennaf fel mater o drefn, ynghyd â gwelyau proffilio i leihau'r risg y bydd cleifion yn datblygu briwiau pwyso.

Canfuwyd un achos, fodd bynnag, lle aseswyd bod calf mewn perygl cymedrol o ddatblygu briw pwyso ac wedi cael ei nyrsio ar un o drolïau'r adran Damweiniau ac Achosion Brys dros nos. Canfuwyd gennym hefyd achosion lle nad oedd cofnodion yn ymwneud â throi cleifion wedi cael eu diweddarau. Mae hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod pob claf yn derbyn gofal a sylw priodol o ran eu hanghenion pwyso na bod dogfennau'n cael eu cwblhau a'u diweddarau'n gyson.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gellir gwneud cleifion mor gyfforddus â phosibl ar welyau os bydd gofyn iddynt aros yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys am gyfnod o amser cyn cael eu derbyn.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cynnal asesiadau priodol sy'n cael eu diweddarau pan nodir bod cleifion mewn perygl o ddatblygu briwiau pwyso, ac y darperir gofal, sylw a thriniaeth briodol.

Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth

Roedd yr adran Damweiniau ac Achosion Brys yn rheoli nifer fawr o gleifion gyda thîm staff a oedd yn cynnwys cyfran uchel o nyrsys newydd gymhwyso. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff presennol mewn amgylchedd sydd eisoes yn anodd. Roedd staff rheoli yn gweithio i geisio gwella'r sefyllfa ond nid oedd hyn yn cael ei gyfathrebu i staff ar y rheng flaen bob amser. Roedd y staff yn cael anawsterau difrifol yn sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol diweddaraf. Gofynnwyd i'r bwrdd iechyd adolygu trefniadau ar gyfer asesu cleifion ar goridorau trwy lythyr sicrhau ar unwaith. Ar adeg yr adroddiad hwn, roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd digonol i AGIC y rhoddwyd sylw i'r holl broblemau.

Lefelau staffio a chymysgedd sgiliau ac atebolrwydd proffesiynol

Cawsom ein cynorthwyo'n dda gan dîm rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad. Roedd Prif Nyrs y Ward ar wyliau blynyddol yn ystod ein harolygiad ond cawsom ein cynorthwyo'n dda gan y nyrsys Band chwech a Band saith (nyrsys â phrofiad rheoli) a oedd yn cydgysylltu shiftiau.

Fe'n hysbyswyd gan staff mai eu nodi oedd sicrhau lefelau staffio o naw o staff nyrsio a dau weithiwr cymorth gofal iechyd yn ystod y dydd ac wyth nyrs a dau weithiwr cymorth gofal iechyd gyda'r nos. Cadarnhaodd rotâu staff ac arsylwadau y sicrhawyd y lefelau hynny yn ystod yr arolygiad. Canfuwyd gennym fod nifer o staff nyrsio band chwech a saith uwch wedi'u cyflogi i weithio yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys, sy'n gadarnhaol, gan fod y graddau hyn yn dynodi staff clinigol hyderus a phrofiadol. Fodd bynnag, roedd achosion o hyd trwy gydol yr arolygiad lle gwelsom staff yn cael trafferth i fodloni galw a'r hanfodion gofal yn cael eu peryglu oherwydd y lefelau staffio ar waith.

Er enghraifft, bu achos yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol lle nad oedd unrhyw staff yn bresennol i roi sylw i glaf y bu i'w gyflwr waethygu a bu'n rhaid i'w berthynas ddod allan i'r prif goridor i ddod o hyd i nyrs a galw am gymorth. Gwelsom un claf ar y coridor y gadawyd pryd bwyd poeth iddo ac nad oedd yn gallu bwyta'n annibynnol. Dywedodd staff hefyd eu bod yn teimlo'n arbennig o agored i niwed yn ystod seibiannau pan fyddant yn rhan o'r 'tîm coridor' oherwydd cymorth wrth gefn annigonol.

Cawsom sgwrs fanwl gyda phum aelod o staff a sgysiaid anffurfiol gyda llawer mwy. Gwelsom uned a oedd yn rheoli llawer iawn o gleifion a oedd angen triniaeth, yn enwedig ar y diwrnod cyntaf yr oeddem ni'n bresennol. Gwelsom

nad oedd yr adnoddau ffisegol ac amgylcheddol yn ddigonol i reoli faint o waith oedd i'w wneud. Fe'n hysbyswyd gan staff bod trosiant staff wedi bod yn uchel yn ystod y 18 mis diwethaf ac er bod staff ychwanegol wedi cael eu recriwtio i lenwi swyddi gwag roedd canran uchel newydd gymhwyso. Ceir rhaglen mentora a chymhwysedd i staff newydd gymhwyso ond dywedodd rhai o'r staff presennol bod y nifer uchel o newydd-ddyfodiaid yn rhoi pwysau ychwanegol arnyn nhw. Cafodd y tîm rheoli gyfarfod gyda'r staff Band saith ar yr ail ddiwrnod i ystyried y ffordd orau o gynorthwyo staff newydd gymhwyso. Mae hyn yn golygu eu bod yn gweithio gyda'r staff i geisio dod o hyd i atebion.

Roedd dau aelod o staff asiantaeth yn gweithio ar shifftiau ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad. Mae salwch ymhlith y staff yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd o ran staff meddygol a nyrsio. Fodd bynnag, dywedodd y staff nyrsio bod salwch staff, yn ogystal â'r niferoedd uchel o staff newydd gymhwyso, yn eu rhoi dan lawer iawn o bwysau.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu lefelau staffio i sicrhau y ceir niferoedd a chymysgedd sgiliau priodol bob amser.

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu sut mae'n darparu cymorth i'r nifer uchel o staff newydd gymhwyso yn yr adran. Mae hyn er mwyn sicrhau bod staff newydd gymhwyso a staff presennol yn cael eu cynorthwyo ac y caiff diogelwch cleifion ei gynnal.

Gwelsom staff meddygol a nyrsio'n gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm cydlynol. Dywedodd un aelod o'r staff meddygol wrthym fod cymorth meddygol uwch wrth gefn da i gefnogi'r tîm. Er nad yw staff meddygol uwch yn gweithio yn yr adran rhwng hanner nos ac 8am, nid oes unrhyw ymgynghorwr ar-alwad ar gael dros y ffôn i gynghori ar reoli cleifion.

Gwelsom fwrdd arddangos sy'n dathlu llwyddiannau'r staff, yn amrywio o hyfforddiant i gyfrifoldebau ychwanegol yr oedd staff wedi ymgymryd â nhw. Mae hyn yn golygu bod llwyddiannau'r staff yn cael eu nodi a'u dathlu.

Er hyn, canfuwyd gennym fod ysbryd y staff yn isel. Gwelsom fod tîm staff ar waith sydd wedi ymrwymo i'r hanfodion gofal ac sy'n cynnal eu gwerthoedd a'u hymddygiad proffesiynol er y pwysau sylweddol maent yn eu hwynebu. Cododd y staff bryderon penodol am lefelau staffio, brysbennu ac arsylwadau o gleifion mewn coridorau. Fe'n hysbyswyd am systemau a sefydlwyd i geisio gwella staffio yn y coridorau, fel sefydlu 'Tîm Asesu Cyflym' penodol (un nyrs yn gwagio ambiwlansys ac yn brysbennu, un nyrs ystafell aros neilltuedig ac un nyrs goridor neilltuedig). Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan staff bod y drydedd

nyrs yn aml newydd gymhwyso a bod cleifion a staff yn cael eu gadael yn agored i niwed yn y fan honno yn ystod seibiannau.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu asesiadau cleifion mewn coridorau er mwyn sicrhau staffio digonol. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sylw i bryderon yn ymwneud ag asesu cleifion mewn coridorau trwy lythyr sicrhau ar unwaith.

Systemau effeithiol ar gyfer trefnu gofal clinigol

Gwelsom system electronig yn cael ei defnyddio i hysbysu'r adran am gleifion sy'n cyrraedd mewn ambiwlans. Gwelwyd bod hon yn cael ei diweddarau'n aml yn staff ar ôl i gleifion gyrraedd. Gwelsom hefyd fod system electronig ar waith i olrhain cleifion a'i bod yn effeithiol o ran caniatáu i'r staff weld trosolwg cyflym o statws cleifion ac i helpu gyda blaenoriaethau angen cleifion. Ceir system pod yn yr adran ar gyfer cludo samplau gwaed i'r labordai profi'n gyflym.

Gwelsom dîm rheoli'r safle yn cydgysylltu'r ysbyty'n ymarferol, yn enwedig o ran y weithdrefn ddwysáu. Canfuwyd gennym yn benodol y cynhelir tri chyfarfod rheoli gwelyau trwy gydol y diwrnod i adolygu'r pwysau cyfredol ar yr adran ac i asesu lle gallai'r wardiau allu rhyddhau gwelyau i wella'r llif o gleifion i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys. Roedd presenoldeb da yn y cyfarfodydd hynny gan Uwch Nyrsys o gyfarwyddiaethau eraill. Aethom ni i ddau o'r cyfarfodydd hyn yn ystod ein harolygiad, un ar y diwrnod cyntaf a nododd brinder o 19 o welyau ar draws yr ysbyty. Yn yr un modd, adroddwyd prinder o 9 gwely ar fore'r ail ddiwrnod. Canfuwyd gennym hefyd bod gwelyau posibl yn cael eu nodi mewn cyfarfodydd o'r fath a bod y rheolwyr yn dychwelyd i wardiau i archwilio a ellid gwneud gwelyau ar gael ar gyfer gofal a thriniaeth cleifion.

Roedd siaradwr allanol yn bresennol yn y cyfarfod ar yr ail ddiwrnod i hysbysu'r tîm am bolisi dwysáu sy'n 'seiliedig ar risg' a dywedodd y rheolwyr y byddent yn rhoi hwn ar waith i geisio gwella'r weithdrefn ddwysáu. Cynghorwyd y staff i wneud yn siŵr eu bod yn cofnodi nifer yr arhosiadau 12 awr yr oedd cleifion yn eu hwynebu ar hysbysfwrdd yr adran Damweiniau ac Achosion Brys. Roedd hyn er mwyn sicrhau diwylliant agored a thryloyw yn yr adran.

Cawsom sgysiau gyda'r staff am weithdrefnau dwysáu ac fe'n hysbyswyd ganddynt fod rhif ffôn neilltuedig y maent yn ei ddefnyddio i ddwysáu pryderon pan nad oedd modd rheoli galw cleifion. Fe'n hysbyswyd ganddynt nad oedd hwn wedi'i staffio bob amser gan staff clinigol sy'n deall y pwysau ac felly ni chymerir camau bob amser. Er bod y rheolwyr yn amlwg yn gweithio'n galed i leihau'r pwysau ac iddynt ein hysbysu ni am fentrau fel recriwtio cydgysylltwyr

llif cleifion i geisio helpu llif cleifion, nid oedd staff sy'n gweithio yn yr adran bob amser yn ymwybodol o hyn ac felly nid oeddent bob amser yn teimlo bod y pwysau'n cael eu cydnabod.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu gweithdrefnau dwysáu a gwneud gwelliannau lle nodir er mwyn sicrhau ymatebion priodol i gadw cleifion a staff yn ddiogel. Dylai'r tîm rheoli ystyried sut maent yn cyfathrebu â'r staff fel bod y staff yn teimlo y gwrandewir ar eu pryderon ac y cânt eu hysbysu am fentrau newydd a allai helpu i wella eu hamgylchedd gwaith.

Hyfforddiant a datblygiad

Fe'n hysbyswyd gan yr holl staff i ni siarad â nhw eu bod yn cael trafferth yn cael eu rhyddhau o'u shifftiau i dderbyn hyfforddiant. Dywedodd un aelod o staff wrthym y bu'n rhaid gohirio ei hyfforddiant ymarferydd nyrsio bedair gwaith gan nad oedd yn gallu cael mynediad at amser anghlinigol i gwblhau hyfforddiant.

Derbyniwyd ystadegau hyfforddiant staff gan y bwrdd iechyd a oedd yn cefnogi ein canfyddiadau. Canfuwyd gennym fod diwrnodau hyfforddiant yn cael eu canslo'n aml. Yn benodol, ceir saith tîm yn yr adran ac mae pob tîm angen o leiaf dau ddiwrnod o amser hyfforddi dim ond i ddarparu hyfforddiant gorfodol a statudol. Eleni, dim ond pedwar tîm gafodd un diwrnod ac ni chafodd y tri tîm arall unrhyw ddiwrnodau hyfforddiant. Trefnwyd diwrnodau ond bu'n rhaid eu canslo oherwydd llwyth gwaith.

Prin oedd gwybodaeth y staff am y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a sut y rheolir materion caniatâd a galluedd meddyliol ar y ward. Canfuwyd gennym nad oedd hyfforddiant Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid erioed wedi cael ei ddarparu. Fe'n hysbyswyd gan y staff nad oedd eu hyfforddiant ar bynciau fel Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ac Amddiffyn Plant yn gyfredol. Fe'n hysbyswyd gan y staff nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant ar ddementia/dryswch ond roedd un aelod o'r tîm wedi ei dderbyn ac roedd cynlluniau i raeadru'r hyfforddiant, er nad oedd unrhyw ddyddiadau pendant wedi'u trefnu.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu anghenion hyfforddiant cyfredol staff a blaenoriaethu'r weithred o sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt. Mae hyn er mwyn sicrhau bod staff yn gymwys i gyflawni eu swyddogaethau, yn gweithredu'n gyfreithlon o ran y Ddeddf

Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a hefyd i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu datblygu.

Nid yw'r staff yn derbyn mynediad prydlon at adolygiadau datblygu perfformiad ac fe'n hysbyswyd gan uwch reolwyr yr amcangyfrifwyd mai 24% yw'r gyfradd gydymffurfiaid gyfredol. Mae adolygiadau datblygu perfformiad yn ffordd bwysig o sicrhau bod gan staff fynediad at gefnogaeth ffurfiol a bod anghenion hyfforddiant a pherfformiad perthnasol yn cael eu nodi.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan staff fynediad at adolygiadau datblygu perfformiad prydlon.

Ymdrin â chwynion a phryderon

Roedd y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gwynion a sut y byddent yn cynorthwyo cleifion neu berthnasau i wneud cwynion. Cawsom sgwrs â theulu a oedd yn dymuno gwneud cwyn yn ystod ail ddiwrnod yr arolygiad. Fe'u cyfeiriwyd yn briodol gan staff y dderbynfa a chawsant gyfarfod gydag aelod o'r tîm rheoli i drafod eu pryderon. Daeth yn amlwg wedyn bod eu pryderon yn ymwneud â gofal a dderbyniwyd ar ward a chawsant eu hysbysu gan yr aelod o staff am sut i godi'r pryderon hyn gyda'r ward dan sylw. Rydym yn teimlo'n sicr yr ymdriniwyd â'r cwynion yn briodol.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid hyrwyddo ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid adnabod risgiau, eu monitro a lle'n bosibl, eu lleihau neu eu rhwystro.

Ceir systemau ar waith i hysbysu am ddigwyddiadau a monitro manau gofal cleifion a gwelsom rai enghreifftiau o sut y defnyddiwyd y canlyniadau i wella gofal cleifion. Nid oedd yn amlwg sut roedd yr hyn a ddysgir o'r systemau hyn yn cael ei rannu gyda'r tîm staff yn barhaus er mwyn sicrhau cefnogaeth a chysondeb. Canfuwyd gennym fod y tîm staff yn rhagorol o ran blaenoriaethu clinigol a sicrhau bod llwybrau clinigol yn cael eu dilyn. Gwelsom hefyd enghreifftiau o arfer dau o ran rheoli triniaeth cleifion agored i niwed, er enghraifft, cynllunio triniaeth barhaus un oedolyn ag anghenion iechyd meddwl. Nid yw'r amgylchedd Damweiniau ac Achosion Brys yn addas ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed a chanfuwyd gennym nad yw'r holl feddyginiaethau ac offer wedi'u storio'n ddiogel i atal unigolion heb ganiatâd rhag cael gafael arnynt. Gofynnwyd i'r bwrdd iechyd roi sylw i bryderon gyda meddyginiaethau ac offer trwy lythyr sicrhau ar unwaith. Ar adeg yr adroddiad hwn, roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd digonol i AGIC y rhoddwyd sylw i'r holl broblemau.

Rheoli risg

Hysbysir am ddigwyddiadau trwy system datix (meddalwedd electronig ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau a'u cofnodi). Fe'n hysbyswyd gan y staff hefyd am ffurflenni digwyddiadau ar wahân a gyflwynwyd gan un o'r ymgynghorwyr i gofnodi achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a/neu unrhyw achosion o drais ac ymddygiad ymosodol. Cyflwynwyd y rhain er mwyn ceisio nodi'r digwyddiadau hynny efallai nad oes angen eu hadrodd yn ffurfiol bob amser ond sy'n arwyddocaol o ran dangos yr hyn y mae'r staff yn ei reoli. Rydym yn teimlo'n sicr bod y tîm staff yn cefnogi'r broses o hysbysu am ddigwyddiadau a bod y staff yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny.

Fe'n hysbyswyd y sefydlwyd y 'Tîm Asesu Cyflym' yn dilyn digwyddiad, sy'n dynodi bod rhywfaint o ddysgu wedi digwydd yn hyn o beth a newidiadau wedi eu gwneud o ganlyniad. Fe'n hysbyswyd gan y staff nad ydynt yn cael adborth ar ddigwyddiadau iddynt eu hadrodd fel rheol ac nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw ddysgu a oedd yn digwydd yn barhaus neu dueddiadau a nodwyd o ddigwyddiadau dros amser. Dywedodd y staff hefyd nad oedd amser i gael ôl-drafodaeth lawn bob amser yn dilyn digwyddiadau.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i fyfyrir ar ddigwyddiadau a nodi tueddiadau i alluogi dysgu. Cynghorir y bwrdd iechyd hefyd i sicrhau bod staff ar lefel Adran, gan gynnwys staff rheng flaen, yn cael eu cefnogi yn dilyn digwyddiadau a bod unrhyw ddysgu sy'n gysylltiedig â digwyddiadau'n cael ei rannu drwy'r tîm.

Mae'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn wynebu heriau o ran sicrhau diogelwch digonol i'r tîm staff ac i gleifion. Mae'r unig fynedfa i'r ysbyty yn ystod y nos drwy'r adran Damweiniau ac Achosion Brys ac felly fe'n hysbyswyd gan y staff ei bod yn cael ei defnyddio fel tramwyfa. Nid oes unrhyw ddiogelwch ar draws y safle felly gall y staff gysylltu â phorthorion yn unig i geisio cynorthwyo i dawelu sefyllfaoedd neu dywedasant wrthym eu bod yn ffonio'r heddlu. Nid oedd y staff i ni siarad â nhw wedi derbyn hyfforddiant rheoli ymddygiad cadarnhaol a chanfuwyd gennym yn ddiweddarach bod hyfforddiant 'trais ac ymddygiad ymosodol' wedi cael ei ganslo gan nad oedd yr adran yn gallu rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant. Mynegodd rhai aelodau staff bryderon gwirioneddol am eu diogelwch wrth drin cleifion.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu trefniadau diogelwch ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu cymorth ar bob shift.

Polisiâu, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol

Roedd y staff yn gallu cael mynediad at bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol ar y fewnwyd. Edrychwyd ar y polisi rheoli meddyginiaethau, Cyfeiriadau Grŵp Cleifion¹ a pholisiâu dwysáu yn fanwl.

Gofynnwyd gennym am y polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ac nid oedd y polisi a roddwyd i ni wedi cael ei adolygu ers 13 Mai 2011, â dyddiad terfyn o

¹ Cyfeiriadau ysgrifenedig ar gyfer cyflenwi neu roi meddyginiaethau i grwpiau o gleifion efallai na fyddant wedi'u nodi'n unigol cyn cyrraedd i gael triniaeth yw **Cyfeiriadau Grŵp Cleifion**. Dylid cadw'r cyfrifoldeb am gyflenwi a rhoi meddyginiaethau dan Gyfeiriadau Grŵp Cleifion ar gyfer y sefyllfaoedd cyfyngedig hynny lle mae hyn yn cynnig mantais i ofal cleifion heb beryglu diogelwch y claf, a lle mae'n gyson â chysylltiadau ac atebolrwydd proffesiynol.

13 Mai 2012. Mae hyn yn golygu y gallai staff fod yn gweithio'n unol â pholisi nad yw'n cynnwys gwybodaeth gywir a chyfredol i hysbysu eu harfer.

Argymhelliad

Dylai fod gan staff fynediad at bolisiau a gweithdrefnau cyfredol i hysbysu eu harfer, ac o ran y polisi rheoli meddyginiaethau'n benodol.

Roedd Cyfeiriadau Grŵp Cleifion wedi'u cynnwys mewn ffeil a oedd yn rhestru protocolau unigol ar gyfer pob cyffur a roddir dan gyfeiriad. Roedd y protocolau wedi'u hysgrifennu'n dda, wedi'u hadolygu ac yn gyfredol, gan gynnwys meini prawf ar gyfer cynnwys ac eithrio grwpiau cleifion. Roedd y Cyfeiriadau wedi'u cymeradwyo'n briodol gan swyddogion y bwrdd iechyd, arweinwyr clinigol a'r adran fferyllol. Roedd yr amrywiaeth o gyffuriau dan y Cyfeiriadau Grŵp Cleifion yn briodol at ddefnydd nyrsys cofrestredig wedi'u hyffordd ar gyfer brysennu mewn adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Systemau effeithiol ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol

Dywedodd staff wrthym fod pob nyrs Band saith yn gyfrifol am archwilio maes arfer penodol, gan gynnwys maetheg, hylendid dwylo, wserau pwyso, rheoli heintiau a chwympau. Datgelodd yr archwiliadau bod cydymffurfiaid â safonau glanhau wedi lleihau dros amser ac roedd y bwrdd iechyd wedi nodi hyn ac wedi rhoi cynlluniau ar waith i wella hyn. Mae hyn yn dangos bod rhywfaint o fyfyrddod a dysgu'n digwydd o ran archwiliadau.

Canfuwyd o siarad â'r staff nad oeddent yn ymwybodol ar sail barhaus sut roedd dysgu o archwiliadau'n digwydd a sut roedd hyn yn cael ei rannu gyda'r tîm staff. Fe'n hysbyswyd gan staff mai anal y cynhelir cyfarfodydd staff ac nid yw llyfr cyfathrebu'n cael ei ddefnyddio mewn gwirionedd. Gwelsom y staff yn rhoi hysbysiadau i fyny o gwmpas yr adran am unrhyw newidiadau i arfer, er enghraifft, pan ganfuwyd problemau gennym yn y llyfr cyffuriau a reolir. Fe'n hysbyswyd bod hysbysiadau o'r fath yn tueddu i gynyddu ac ni allai'r staff gadw i fyny â'r hyn yr oeddent wedi ei weld eisoes yn hytrach nag unrhyw wybodaeth a oedd yn newydd. Fe'n hysbyswyd gan y staff rheoli eu bod yn ceisio datblygu ffyrdd gwell o gyfathrebu â staff, er enghraifft trwy e-bost.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella cyfathrebiad rhwng rheolwyr a'r tîm staff, yn enwedig o ran canlyniadau o archwiliadau a newidiadau i arferion yn yr adran.

Diogelwch cleifion

Mae amgylchedd ffisegol yr adran yn golygu bod diffyg lle storio gan fod pob man sydd ar gael yn cael ei defnyddio i weld cleifion. O ganlyniad, mae offer fel rhanwyr ystafell, trolïau dadebru a throlïau sy'n storio eitemau fel cyllyll llawfeddyg, llafnau a nodwyddau allan ar goridorau. Canfuwyd un rhannwr ystafell yn rhwystro drws y fynedfa ambiwlans. Mae'r materion hyn yn peri risgiau iechyd a diogelwch sylweddol i staff a chleifion.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu sut ellir storio offer yn ddiogel yn yr adran er mwyn osgoi mynediad heb awdurdod at offer a allai fod yn beryglus. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pryder hwn trwy lythyr sicrhau ar unwaith. Dylid symud y rhannwr ystafell o'r fynedfa ambiwlansys i sicrhau ei bod yn gwbl hygyrch.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn creu heriau sylweddol ychwanegol o ran diogelu cleifion sy'n agored i niwed a phlant. Gwelsom nad oedd unrhyw fan aros neilltuedig i blant ac fe'n hysbyswyd gan y staff bod plant yn aml yn cael eu trin mewn cilfan yn yr uned mân-anafiadau lle ceir risgiau o'r ffaith bod cleifion eraill yn derbyn triniaeth yno.

Argymhelliad

Ar gyfer cleifion pediatrig, plant a phobl ifanc sy'n mynd i'r adran, mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried a yw'r prif fan aros a'r gilfan yn yr uned mân-anafiadau'n briodol a gwneud gwelliannau i ddiwallu anghenion plant a gwella eu cysur, eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd nifer o gleifion agored i niwed yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol. Fe'n hysbyswyd gan staff eu bod yn ceisio sicrhau ei neilltuir y gwelyau sydd agosaf at yr orsaf nyrsys pan fo angen goruchwyliaeth un i un ar gleifion, (er enghraifft, cleifion ag anawsterau iechyd meddwl), fel y gellid eu goruchwylïo'n rhwydd. Fodd bynnag, oherwydd cynllun yr amgylchedd ffisegol, nid oes modd gweld yr holl welyau o'r orsaf nyrsys ac mae'r galw am welyau'n golygu nad yw hyn yn bosibl bob amser. Mae'r lefelau staffio sydd ar waith hefyd yn golygu bod adegau pan fu'n rhaid i staff adael yr Uned am gyfnodau byr o amser. Canfuwyd gennym hefyd bod gweithiwr wedi gadael set o offer yn yr Uned gan gynnwys llif a sgrïwdreifer y gallai cleifion fod wedi cael gafael arnynt. Hysbyswyd y staff am hyn a chafwyd gwared ar yr offer ar unwaith. Fodd bynnag, ni allem fod yn sicr y gellid rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â chleifion agored i niwed yn briodol yn yr amgylchedd cyfredol.

Argymhelliad

Ar gyfer cleifion agored i niwed, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut mae'n sicrhau y gellir gwella'r amgylchedd ffisegol a staffio er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu'n briodol.

Rheoli meddyginiaethau

Rhoi a chofnodi meddyginiaethau

Rhoddir meddyginiaeth ar sail unigol o gypyrddau stoc. Gwelsom staff yn rhoi meddyginiaethau a chanfuwyd eu bod yn fedrus a chymwys, gan leoli cleifion yn gywir a gwneud cofnodion cywir yng Nghofnodion Rhoi Meddyginiaeth y cleifion.

Canfuwyd gennym nad oedd y llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei gwblhau'n llawn yn unol â gofynion cyfreithiol a pholisi'r bwrdd iechyd. Er enghraifft, roedd nifer o fylchau lle dylid cofnodi llofnodion neu faint a roddwyd. Roedd anghysondebau gydag archwiliadau stoc hefyd â chyfnodau o dri neu bedwar diwrnod lle na chafodd stoc ei archwilio.

Argymhelliad

Dylid llenwi'r llyfr cyffuriau a reolir yn gywir, yn unol â gofynion cyfreithiol. Dylid monitro hyn i sicrhau cydymffurfiad parhaus. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pryder hwn trwy lythyr sicrhau ar unwaith.

Mae stoc o gyffuriau ar gael i gleifion fynd adref â nhw. Caiff y rhain eu labelu ymlaen llaw gan yr adran fferyllol a cheir cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio. Mae fferylllydd ar-alwad ar gael i gyflenwi unrhyw gyffuriau ychwanegol sydd eu hangen y tu allan i oriau gwaith.

Storio cyffuriau

Nid oedd yr holl feddyginiaeth wedi'i storio'n ddiogel i atal mynediad i bobl heb awdurdod. Canfuwyd nad oedd dwy oergell â meddyginiaethau ydynt y tu allan i'r ystafelloedd dadebru ar glo. Canfuwyd hefyd bod y drws i'r ystafelloedd meddyginiaethau'n cael ei adael heb ei gloi weithiau. Canfuwyd fod y clo ar yr ystafell feddyginiaethau yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol wedi torri a bod meddyginiaethau'n cael eu storio mewn droriau heb eu cloi. Rhoddodd staff sylw i'r materion hyn ar unwaith tra'r oeddem ni'n bresennol.

Canfuwyd pecynnau o salbutamol ar agor yn y cwpwrdd meddyginiaethau yn yr ardal anafiadau difrifol, ac roedd pob un yn cynnwys gwahanol gryfderau o'r cyffur. Roedd hylifau at ddefnydd mewnwythiennol a lidocaine (cyffur anesthetig lleol) wedi'u storio ar droli agored y tu allan i'r ystafell ddadebru.

Argymhelliad

Dylid ad-drefnu cyflenwadau salbutamol er mwyn sicrhau y gall staff gael gafael ar y cryfder cywir yn rhwydd. Dylid storio hylifau mewnwythiennol a chyffuriau anesthetig lleol yn ddiogel er mwyn sicrhau na all unigolion

heb awdurdod gael gafael arnynt. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pryder hwn trwy lythyr sicrhau ar unwaith.

Canfuwyd fod sawl math o feddyginiaeth wedi mynd heibio eu dyddiadau terfyn. Cafwyd gwared ar y rhain tra'r oeddem ar y safle. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd cypyrddau wedi'u labelu'n gyson â'r meddyginiaethau a oedd ynddynt er mwyn caniatau mynediad rhwydd.

Argymhelliad

Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd ddangos trwy lythyr sicrhau ar unwaith sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau a systemau addas yn cael eu rhoi ar waith o ran storio, rheoli a thrin meddyginiaethau'n ddiogel nawr, ac ar sail barhaus.

Canfuwyd gennym nad oedd y troli argyfwng pediatriig a ddefnyddir pan fydd angen dadebru plant wedi'i stocio'n llawn ar gyfer argyfyngau. Hysbyswyd y staff nyrsio am bresenoldeb laryseal (mwgwd llwybr anadlu) ar gyfer rhoi tiwb yn y bibell wynt heibio ei ddyddiad terfyn a chwistrell heibio ei dyddiad terfyn ar y droli hon. Cafwyd gwared ar y rhain ar unwaith gan y staff. Nid oedd y problemau hynny wedi'u nodi, er bod cofnod yn dynodi bod y droli'n cael ei harchwilio'n rheolaidd.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod troliâu argyfwng yn cael eu harchwilio'n rheolaidd ac y cymerir camau i sicrhau eu bod wedi'u stocio'n llawn a bod unrhyw eitemau heibio eu dyddiad terfyn yn cael eu taflu.

Dogfennau

Asesu Cleifion

Edrychwyd ar bedair set o gofnodion cleifion yn fanwl, gan gynnwys dau glaf arbennig o agored i niwed, ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl. Canfuwyd gennym fod asesiadau brysbennu Damweiniau ac Achosion Brys yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n electronig. Mae cynlluniau rheoli'r adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi'u hunigoleiddio o ran sut ddylid rheoli cyflwr y person. Roedd ymyriadau gofal wedi'u cofnodi'n dda ac yn cael eu diweddarau mewn amser real er mwyn sicrhau cywirdeb cofnodi. Canfuwyd gennym fod nodiadau'n cael eu rhannu ar draws y tîm, er enghraifft, gwelsom gofnodion gan therapydd galwedigaethol a meddyg seiciatrig yn paratoi cleifion i gael eu rhyddhau.

Canfuwyd gennym fod llyfrynnau asesu risg ar waith ond nad oeddent wedi'u cwblhau bob amser, hyd yn oed pan fo cyflwr claf yn dynodi y gallai fod mewn perygl cynyddol. Er enghraifft, yn achos un claf a oedd yn ddiabetig, oedd â hanes o gwmpo ac yn cael anhawster yn symud, nid oedd y perygl y byddai'n datblygu niwed pwyso wedi cael ei asesu'n llawn ac roedd wedi cysgu ar droli dros nos, gan gynyddu'r risg o niwed pwyso. Mae gan y staff fynediad at fwndeli gofal² ond nid oedd y rhain yn cael eu defnyddio'n gyson.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu sut y rheolir risgiau cleifion yn yr adran er mwyn sicrhau bod dogfennau'n cael eu cwblhau'n gyson yn ôl y gofyn er mwyn helpu i gadw cleifion yn ddiogel a rheoli risgiau'n briodol.

Canfuwyd gennym fod dogfennau yn ymwneud â llwybrau gofal wedi cael eu cwblhau a'u dilyn yn briodol. Er enghraifft, yn achos un claf, roedd llwybr cardiaidd wedi cael ei sefydlu a oedd yn sicrhau bod ei gyflwr yn cael ei reoli'n briodol.

Rheoli'r Ward

Cedwir nodiadau cleifion yn ddiogel yn y gorsafoedd nyrsys ym mhob man. Gwelsom drosglwyddiadau llafar (yn ymwneud â gofal a thriniaeth cleifion) a oedd yn synhwyrol ac yn llawn gwybodaeth.

Llwybrau cleifion effeithiol

Gwelsom a disgrifiodd staff i ni sut mae'r adran Damweiniau ac Achosion Brys yn rheoli llwybrau cleifion yn unol ag effeithiolrwydd clinigol. Gwelsom dystiolaeth o'r llwybrau strôc, clud wedi torri, sepsis a chardiaidd yn cael eu dilyn yn effeithiol gyda'r ymyriadau gofal a argymhellir.

Cafodd dau glaf agored i niwed eu holrhain gennym hefyd, un ag anableddau dysgu a'r llall ag anghenion iechyd meddwl, i weld sut roedd eu llwybrau gofal yn cael eu rheoli. Yn y ddau achos, canfuwyd gennym y rhoddwyd triniaeth

² Ymyriadau a dulliau wedi eu cytuno ar draws Cymru Gyfan neu Fwrdd Iechyd i ymdrin ag agweddau penodol ar ofal iechyd yw **bwndeli**. Mae'r rhain yn sicrhau arfer nyrsio seiliedig ar dystiolaeth cyson.

sensitif a phriodol a bod atgyfeiriadau i weithwyr proffesiynol priodol wedi'u gwneud.

Gwelsom dîm ar waith a oedd yn rhagorol o ran blaenoriaethu clinigol a chafodd pob claf i ni ei olrhain ei weld a'i drin yn brydlon. Gwelsom staff meddygol a nyrsio'n gweithio'n agos iawn i sicrhau bod cleifion yn derbyn cysondeb yn eu gofal a'u triniaeth a bod pob man yn parhau i gael ei staffio mor ddiogel â phosibl.

Gwelsom enghreifftiau o ddull amlddisgyblaeth o gynllunio rhyddhad cleifion yn cynnwys mewnbwn gan staff meddygol a nyrsio yn ogystal â'r tîm proffesiynol ehangach fel yr ymgynghorydd eiddilwch a staff ffisiotherapi a therapi galwedigaethol.

Gofal Diabetes

Edrychwyd ar ddwy set o nodiadau'n fanwl ar gyfer cleifion diabetig (un claf â diabetes math un ac un claf â diabetes math dau) a thrafodwyd gofal diabetes gyda'r staff. Dangosodd y set o nodiadau ar gyfer y ddau glaf bod gofal wedi cael ei gynllunio, bod camau priodol wedi'u cymryd o ganlyniad a bod gofal diabetes wedi cael ei werthuso yn y nodiadau nyrsio.

Canfuwyd gennym fod profion glwcos gwaed yn cael eu cofnodi'n rheolaidd ac roedd meddyginiaethau inswlin wedi'u cofnodi'n briodol ar y siart presgripsiwn ac yn cael ei roi'n brydlon.

Ceir troli fwyd sy'n golygu bod cleifion yn derbyn prydau a byrbrydau rheolaidd a dangoswyd ar yr hysbysfwrdd ym mhob man pa gleifion oedd yn ddiabetig er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn prydau rheolaidd. Nodwyd gennym nad oedd siart bwyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y claf â diabetes math dau er mwyn monitro faint o fwyd roedd yn ei fwyta ac nid oedd asesiad gofal croen wedi'i gynnal er y byddai ei gyflwr yn ei roi mewn perygl cymedrol.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod siartiau bwyd a hylif yn cael eu defnyddio a'u diweddarau'n gyson ar gyfer cleifion diabetig a bod unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gofal croen yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.

Ceir nyrs cyswllt diabetes sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt lleol ac yn rhannu arfer gorau ar ofal diabetes. Mae'r nyrs gyswllt yn cynnig mewnbwn aml i gleifion Damweiniau ac Achosion Brys, yn cynnal clinigau diabetig ac yn aml yn meddu ar wybodaeth flaenorol o gleifion gan ei bod yn gweithio gyda chleifion yn y gymuned.

Roedd 'bocs hypo' yn yr adran a oedd wedi torri ac nad oedd yn cynnwys yr holl offer a meddyginiaeth sy'n ofynnol i drin argyfwng diabetig fel siwgr gwaed isel. Cafodd y mater hwn ei ddwysáu ac roedd y staff wedi gosod pedwar bocs hypo newydd wedi'u stocio'n dda ym mhob rhan o'r adran ar ail ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd y cofnodion i ni eu gweld yn dangos bod y staff wedi ymateb yn briodol i glaf a gyrhaeddodd â hypoglycemia (a adnabyddir hefyd fel siwgr gwaed isel). Fodd bynnag, nid oedd yn eglur pryd roedd glwcos gwaed y claf wedi cael ei ailwrio i gadarnhau bod hypoglycemia wedi cael ei drin yn effeithiol.

Argymhelliad

Dylid diweddarau siartiau glwcos gwaed cleifion yn rheolaidd i brofi bod y staff yn rheoli eu hanghenion triniaeth ddiabetig yn briodol.

Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff bod hyfforddiant ar reoli diabetes yn cael ei raeadru a gwelsom ganllaw siart lif ar gyfer rheoli argyfyngau diabetig yn yr ystafell gyffuriau i sicrhau mynediad rhwydd.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno eu Cynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Nevill Hall yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau / unedau eraill y bwrdd iechyd.

Caiff Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar urddas a gofal sylfaenol.

Sylwer bod y bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd digonol i ni erbyn hyn y rhoddwyd sylw i bryderon yng nghyswllt y llythyrau sicrhau ar unwaith yr ydym yn cyfeirio atynt yn y cynllun gwella isod. Mae manylion ar gael yng nghynllun gwella llawn y bwrdd iechyd a gyhoeddir isod.

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Ysbyty: Nevill Hall

Ward/Adran: Adran Damweiniau ac Achosion Brys

Dyddiad yr Arolygiad: 3 a 4 Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf				
7 Pwynt 1	Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu'r amgylchedd a'r cyfleusterau a ddarperir yn y man aros er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau'n gweithio a bod gwybodaeth berthnasol am gleifion ar gael ac yn cael ei rhannu â'r cleifion a'r cyhoedd.	Cynhaliwyd ail archwiliad amgylcheddol ar 12 Ionawr 2015 gyda Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth a'r Tîm Iechyd a Diogelwch.	Rheolwr Cyffredinol Pennaeth Cyfleusterau Rheolwr Iechyd a Diogelwch	Cwblhawyd
		- Cynhaliodd y Prif Swyddog Gweithredu, y Rheolwr Cyffredinol a'r Nyrs Ranbarthol adolygiad o'r cyfleusterau ar 23 Ionawr 2015. - Ystadau i adolygu'r dewisiadau o ran adnewyddu - i'w gweithredu o fewn y gyllideb cyfalaf - Y canfyddiadau i'w hadolygu gan Bwyllgor Amgylchedd y Bwrdd Iechyd a'r Tîm Gweithredu i gytuno ar y camau gweithredu - adrodd wrth y Tîm Gweithredu erbyn mis Chwefror 2015	Prif Swyddog Gweithredu, Rheolwr Cyffredinol, Nyrs Ranbarthol	Chwefror 2015
		® Taflenni Gwybodaeth am Gleifion ar gael. - Gosod arwyddion i bobl anabl er mwyn canfod toiledau anabl ar gyfer cleifion a gofalwyr. - Staff y dderbynfa a'r nyrsys brysbennu i gynghori cleifion ynglŷn â bras amcan amseroedd aros.	Uwch Nyrs	Cwblhawyd
7 Pwynt 2	Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried pa un a yw'r lefelau staffio yn briodol er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld cyn gynted â phosibl ar ôl brysbennu a sut i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion ynglŷn â gwelliant ar ôl triniaeth.	0 Cynhaliwyd adolygiad o lefelau staffio Nyrsys yn ystod 2014, cyflogwyd 10 o nyrsys cofrestredig ychwanegol. ® Adolygir aciwtedd a gweithgaredd bob dydd er mwyn sicrhau lefelau staffio diogel. - Mae hysbysu gan ddefnyddio techneg SBAR ar gael er mwyn galluogi staff rheng flaen i godi pryderon os ydynt o'r farn bod dim digon o staff ar gael oherwydd aciwtedd.	Tîm Rhanbarthol ac Arweinydd Nyrsio Rhanbarthol. Nyrs Ranbarthol	Adolygiadau misol gorffenedig o'r sefydliad ar gael Chwefror 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
7 Pwynt 2 (parhad)	Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried pa un a yw'r lefelau staffio yn briodol er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld cyn gynted â phosibl ar ôl brysennu a sut i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion ynglŷn â gwelliant ar ôl triniaeth.	• Mae patrymau shifft o fewn yr adran wedi eu hadolygu a'u safoni er mwyn bodloni anghenion y gwasanaeth. ® Mae'r adran wedi symud yn ddiweddar at e-amserlennu. ® Mae'r polisi uwchgyfeirio wedi'i hen sefydlu a chafodd y staff eu hatgoffa ynglŷn â'r angen i uwchgyfeirio pan fo hynny'n ofynnol - cynhelir adolygiad bob dydd	Nyrs Ranbarthol ac Uwch Nyrs	Adolygiadau misol gorffenedig o'r sefydliad ar gael
		® Mae gwasanaeth Ymarferydd Nyrsio Brys yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn ei wneud yn unol â gweddill y Bwrdd Iechyd. Gwasanaeth Ymarferydd Nyrsio Brys penodol i'w gyflwyno ym mis Ionawr 2015. 0 Model ar gyfer gwasanaeth Ymarferydd Nyrsio Brys i'w gytuno arno ar gyfer dyfodol clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys rhaglen ar gyfer datblygu'r tîm.	Tîm Rhanbarthol Tîm Gweithredol	Ionawr 2015
8	Cynghorir y Bwrdd Iechyd i ystyried sut y gall cleifion sy'n aros yn y dderbynfa i gael eu gweld eu monitro'n ddigon da i ganfod unrhyw ddirywiad yn eu cyflwr.	- o Cleifion yn cael eu brysennu wrth gyrraedd. © Mae gwasanaeth Ymarferydd Nyrsio Brys penodol a threfniadau brysennu wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio, ac mae'n rhaid uwchgyfeirio unrhyw achosion o ddirywiad - adolygiad ffurfiol i'w gynnal o effeithiolrwydd mewn 1 mis	Nyrs Ranbarthol ac Uwch Nyrs Holl Staff	Gweithredwyd Ionawr 2015
Darparu Hanfodion Gofal				
9	Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu gwybodaeth berthnasol a chyfredol mewn mannau aros. Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried hefyd sut y gellir darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynllun triniaeth y cleifion yn y mannau aros a'r amseroedd aros.	- e Gwybodaeth am gleifion ar gael mewn mannau triniaeth. ® Bydd y Staff Nyrsio yn hysbysu'r cleifion am ddatblygiad ac amseroedd aros yn rhan o'r trefniadau brysennu newydd	Uwch Nyrs Prif Nyrsys	Gweithredwyd Rhagfyr 2014
10	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am wneud cwynion ar gael yn rhwydd i gleifion.	0 Gwybodaeth am wneud cwynion i fod yn amlwg ac ar gael yn rhwydd yn y man aros a'r Adran	Uwch Nyrs a Chlinigydd Arweiniol	Gweithredwyd Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gallu cynnal asesiadau cleifion cywir a llawn, gan eu dadwisgo pan fo hynny'n ofynnol.	® Os oes angen gwneud archwiliad clinigol ar gleifion, eir â hwy i fan priodol ble y gellir cadw urddas a diogelwch. ® Pan gaiff llawer o bobl eu huwchgyfeirio, rhoddir blaenoriaeth i'r mater hwn	Uwch Nyrs a Chlinigydd Arweiniol	Cwblhawyd
11 Pwynt 3	Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu'r amgylchedd er mwyn ystyried ble gellir darparu mannau storio addas.	Mae hyn yn cael ei adolygu ynghyd â'r adolygiad amgylcheddol a bydd angen arian cyfalaf pan gaiff ei ystyried ar lefel gweithredol Gweler pwynt I		Chwefror 2015
12 Pwynt 4	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i sicrhau bod yr amgylchedd mor hygyrch â phosibl i'r cleifion hynny â dementia a/neu sy'n ddryslyd.	- Mae dementia a nam gwybyddol yn cyfrannu at yr adolygiad - Mae adolygiad o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal er mwyn rhoi cleifion sy'n dioddef o ddementia/dryslyd ar y trywydd cyflym i feysydd priodol. - Bwrdd Dementiawedi'i sefydlu — mwy o newid o ran staff i gael ei wneud	Prif Swyddog Gweithredu, Rheolwr Cyffredinol, Nyrs Ranbarthol, Pennaeth Cyfleusterau	Chwefror 2015
12 Pwynt 5	Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn adolygu sut y gellir darparu ar gyfer anwyliaid cleifion yn briodol pan fo cleifion yn aros i gael eu gweld ar droliau.	Mae'r cyfleusterau aros gofalmwr yn cael eu hystyried yn rhan o'r adolygiad amgylcheddol. Mae cyfyngiadau'r adran yn gwneud cyfleusterau aros gofalmwr penodol yn anodd - Caiff pob cam ei gymryd i ddarparu ystafell addas ar gyfer gofalmwr	Prif Swyddog Gweithredu, Rheolwr Cyffredinol, Nyrs Ranbarthol, Pennaeth Cyfleusterau	Chwefror 2015
13	Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod y cypyrddau dillad gwely wedi'u cyflenwi'n dda bob amser er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gyfforddus ac i'w hannog i orffwyso.	® Cynhaliwyd archwiliadau o'r dillad gwely ac mae stoc ychwanegol ar gael	Uwch Nyrs a'r Nyrs Cyfrifol	Gweithredwyd Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
14	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys a meddygon yn ymateb i sgôr poen cleifion yn ystod y broses brysennu, yn rhoi lleddfwyr poen pan fo hynny'n ofynnol ac yn gwerthuso effeithiolrwydd lleddfwyr poen i gleifion.	- o Gweithredwyd © Codwyd ymwybyddiaeth y staff 0 Staff Arweinwyr Clinigol i barhau i godi ymwybyddiaeth - e Teclyn asesu poen i'w ddefnyddio ar gyfer pob claf priodol a'u harchwilio gan nyrs arwain mewn rheoli poen yn ystod y mis nesaf	Uwch Nyrs a'r Arweinydd Clinigol	Gweithredwyd Rhagfyr Chwefror ^{3ydd} 2015
14	Dylai'r staff werthuso a chofnodi sgoriau poen parhaus cleifion er mwyn sicrhau bod cynlluniau wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli poen pan fo hynny'n ofynnol a'u bod yn trin poen cleifion yn briodol ac yn effeithiol dros amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r cleifion hynny sy'n aros yn yr adran am gyfnod sylweddol.	® Cafodd pob aelod o'r staff eu hatgoffa o'r teclyn asesu poen sydd ar gael ac mae'n rhaid ei ddefnyddio'n briodol ® Nyrs Arwain mewn Rheoli Poen i gynnal archwiliad er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol.	Nyrs Arwain mewn Rheoli Poen	3 Chwefror 2015
15	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i gleifion er mwyn eu cynorthwyo gyda'u hanghenion gofal personol, yn enwedig y cleifion hynny sydd bellach yn aros yn yr adran am gyfnod hirach.	® Mae cyfleusterau cawod ar gael ® Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol i'w cynnal bob mis er mwyn rhoi sicrwydd.	Uwch Nyrs, Nyrs Cyfrifol ac Arweinydd Clinigol Gweithredwyd	Ionawr 2015
		® Bydd cleifion sy'n aros yn yr adran sy'n cael sgôr uchel yn y system sgorio Waterlow yn cael eu trosglwyddo i wely. - o Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol i'w cynnal er mwyn rhoi sicrwydd. - o Codi ymwybyddiaeth staff		3 Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
16	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau eu bod yn ymwybodol pan fo cleifion angen cymorth gyda bwyta ac yfed, a bod digon o staff ar gael i gynorthwyo. Dylai staff sy'n cynorthwyo gyda phrydau bwyd wisgo dillad amddiffynnol priodol a sicrhau eu bod yn cynnig hancesi gwlyb i gleifion er mwyn golchi eu dwylo cyn bwyta.	® Nodwyd yn ystod archwiliadau blaenorol bod cleifion yn fodlon o ran bod darpariaeth diod a deiet digonol ar gael ® Codwyd ymwybyddiaeth y staff ynglŷn â glendid dwylo cyn i gleifion fwyta ® Codwyd ymwybyddiaeth y staff er mwyn ategu'r safonau a ddisgwylir o ran maeth ac yfed digon - o Penodwyd gweithiwr cadw tŷ er mwyn cefnogi'r agenda hwn ymhellach. - o Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol ac archwiliadau Hanfodion Gofal i'w cynnal er mwyn mesur perfformiad a chydymffurfiaeth.	Uwch Nyrs a Nyrs Cyfrifol	Gweithredwyd 4 Rhagfyr 2014
	Pan nodir bod cleifion mewn perygl o ran eu hanghenion maeth, dylid cynnal dogfennau'n gyson a dylid diweddarau siartiau bwyd a diod er mwyn sicrhau bod eu hanghenion maeth yn cael eu bodloni.	• Uwch Nyrs i hybu pwysigrwydd darparu dogfennau a nodi'r maeth a'r ddiod mae'r cleifion yn ei gymryd yn effeithiol.	Uwch Nyrs a Nyrs Cyfrifol	Gweithredwyd
		® Siartau Maeth a Diod bellach wedi eu sefydlu ar gyfer y cleifion i gyd mewn ardal anafiadau difrifol		Gweithredwyd
17 Pwynt 6	Dylid cyflwyno asesiadau iechyd y geg priodol, yn enwedig ar gyfer y cleifion hynny sy'n aros yn yr adran am gyfnodau o hyd at 24 awr a hirach er mwyn sicrhau bod eu hanghenion gofal iechyd y geg yn cael eu bodloni.	® Mae Bwndel Gofal Iechyd y Geg Cymru Gyfan wedi'i sefydlu ac yn cael ei ddilyn. 9 Bydd perfformiad yn cael ei fesur yn rhan o'r archwiliadau Hanfodion Gofal dan ofal yr Uwch Nyrs	Uwch Nyrs a Nyrs Cyfrifol	Gweithredwyd Gweithredwyd Rhagfyr 2014
17 Pwynt 7	Dylid sefydlu system fel bod staff yn gallu gweld yn glir pa gomodau sydd wedi'u golchi ac sy'n barod i'w defnyddio.	0 Staff i gyd i lynu wrth y Safon Glanhau Comodau • Codwyd ymwybyddiaeth y staff gan gynnwys defnyddio tagiau Rwy'n lân ® Staff rheoli heintiau i gynnal Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol a hapwiriadau rheoli heintiau	Uwch Nyrs, Nyrs Cyfrifol a thîm Rheoli Heintiau	Gweithredwyd Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
18	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn gallu bod mor gyfforddus â phosibl ar welyau os oes angen iddynt aros yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys am gyfnod o amser cyn iddynt gael eu derbyn. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cynnal asesiadau priodol sy'n cael eu diweddarau pan nodir bod cleifion mewn perygl o ddatblygu briwiau pwyso, ac y darperir gofal, sylw a thriniaeth briodol.	• Sicrhau bod y polisi'n glir o ran os yw claf mewn adran am gyfnod hir, bydd yn cael ei drosglwyddo i wely a chaiff asesiad o fannau pwyso ei adolygu. • Codwyd ymwybyddiaeth y staff ynglŷn â defnyddio system sgorio Waterlow yn gyson a defnyddio offer lleddfu pwysedd. 0 Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol ac archwiliadau Hanfodion Gofal ® Hapwiriadau dirybudd gan Nyrs Ranbarthol	Uwch Nyrs, Nyrs Cyfrifol a Nyrs Ranbarthol tîm Hyfywedd Meinwe	Wedi'i sefydlu ac yn barhaus Gweithredwyd
Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
20 Pwynt 9	Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn adolygu sut y mae'n rhoi cymorth i'r niferoedd uchel o staff sydd newydd gymhwyso yn yr adran. Mae hyn er mwyn sicrhau bod staff sydd newydd gymhwyso yn ogystal â'r staff presennol yn cael cymorth ac y cynhelir diogelwch cleifion.	• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu yn yr Adran Achosion Brys. Ym mis Medi 2014 penodwyd 10 Nyrs Gofrestredig ychwanegol • Mae pob aelod o staff sydd newydd gymhwyso yn dilyn rhaglen sefydlu gynhwysfawr y bwrdd iechyd ar gyfer nyrsys cofrestredig ac yn cael tiwtoriaeth yn yr amgylchedd clinigol. • Mae pob aelod newydd o staff wedi dilyn hyfforddiant sefydlu 2 ddiwrnod yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, cyfnod ychwanegol o 2 wythnos a mentorau ar gael. ® Rhoddir mwy o gymorth i Fentoriaid a Hyfforddwyr er mwyn sicrhau cymorth ac er mwyn galluogi'r tîm i wneud cynnydd. ® Mae Nyrs Ranbarthol, Tîm Nyrsio Corfforaethol a Hyfforddiant Corfforaethol yn cefnogi'r gwasanaeth ac maent yn ymateb i unrhyw gymorth ychwanegol mae'r gwasanaeth ei angen. • Mae rhaglen ddatblygu arweinyddiaeth wedi'i sefydlu ar gyfer datblygu Prif Nyrsys. ® Mae polisiau adolygu perfformiad a datblygiad ar gyfer rheoli mewn achosion o salwch wedi'u sefydlu, ac mae uwch nyrs wedi adolygu'r gydymffurfiaeth.	Nyrs Ranbarthol Uwch Nyrs a Nyrs Cyfrifol Tîm Hyfforddiant Corfforaethol	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
21	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu asesiadau cleifion mewn coridorau er mwyn sicrhau staffio digonol. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sylw i bryderon yn ymwneud ag asesu cleifion mewn coridorau trwy lythyr sicrhau ar unwaith.	® Mae'r ymgynghorwyr yn yr Adran Achosion Brys yn bendant y byddai'n well ganddynt fod cleifion yn y coridorau yn hytrach nag yn aros mewn Ambiwylans. Caiff cleifion sydd angen archwiliad corfforol eu symud i gilfan wedi'i sgrinio i'w harchwilio. • Mae polisi uwchgyfeirio wedi'i sefydlu a chafodd y staff eu hatgoffa i'w ddefnyddio ® Ehangu'r gwasanaeth Ymarferydd Nyrsio Brys er mwyn cynorthwyo gyda rheoli cleifion yn amserol ® Perfformiad y gwasanaeth a reolwyd mewn cyfarfod ynglŷn â pherfformiad mewn achosion brys yr oedd y Prif Swyddog Gweithredu yn ei gadeirio. ® Roedd polisi uwchgyfeirio staff wedi'i sefydlu ar gyfer ei weithredu	Prif Swyddog Gweithredu Nyrs Weithredol/Pennaeth Meddygol Cyfarwyddwr yr Is-adran /Tim Rhanbarthol	Yn barhaus ac yn cael ei adolygu bob dydd
22 Pwynt 10	Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu gweithdrefnau dwysáu a gwneud gwelliannau lle nodir er mwyn sicrhau ymatebion priodol i gadw cleifion a staff yn ddiogel. Dylai'r tîm rheoli ystyried sut maent yn cyfathrebu â'r staff fel bod y staff yn teimlo y gwrandewir ar eu pryderon ac y cânt eu hysbysu am fentrau newydd a allai helpu i wella eu hamgylchedd gwaith.	• Polisi uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd wedi'i adolygu gan y tîm gweithredol ar 5 Ionawr 2015 yn unol â phroses dwysáu Llywodraeth Cymru ® Mae'r Tîm Rheoli Is-adrannol yn adolygu cydymffurfiaeth ar y rheng flaen bob dydd. Mae'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Tîm Gweithredol ar gael ac eir am dro yn rheolaidd pan fo pwysedd uchel ac yn ystod teithiau cerdded a drefnwyd yn ymwneud â diogelwch/ymweliadau gan Aelodau Annibynnol a Phrif Weithredwyr.	Tîm Gweithredol Tîm Rheoli Is-adrannol	Gweithredwyd Ionawr 2015
22	Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu anghenion hyfforddiant cyfredol staff a blaenoriaethu'r weithred o sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt. Mae hyn er mwyn sicrhau bod staff yn gymwys i gyflawni eu	® Mae angen cwblhau dadansoddiad o anghenion hyfforddiant a gwasanaeth erbyn diwedd mis Ionawr 2015. • Mae cynlluniau manwl wedi'u gwneud er mwyn dangos yr angen am arfer uwch yn y dyfodol a gofynion Ymarferwyr Nyrsio Brys.	Nyrs Ranbarthol, Uwch Nyrs, Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol	31 Ionawr 2015 Gweithredwyd

Pwynt 11	swyddogaethau, yn gweithredu'n gyfreithlon o ran y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a hefyd i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu datblygu.	® Bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol yn ogystal â'r Arweinydd Diogelu yn gweithio gyda'r Is-adran i sicrhau bod hyfforddiant ar waith o ran y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid • Cytunwyd ar fuddsoddiad ar gyfer Asesiad Budd Pennaf ychwanegoli recriwtio ar unwaith (ar gyfer y sefydliad yn gyffredinol)	Cyfarwyddwr yr Is-adran Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol	Cynlluniau i'w hamlinellu erbyn 31 Ionawr 2015
----------	---	---	---	---

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
23	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan staff fynediad at adolygiadau datblygu perfformiad prydlon.	e Tîm yr Is-adran i gefnogi proses adolygiadau datblygu perfformiad y staff o fewn yr adran er mwyn sicrhau bod gan staff fynediad ac i wella cydymffurfiaeth. e Sicrhau bod hyfforddiant diweddar ar gael i arweinwyr tîm Band 7 a Band 6 os yw hynny'n ofynnol. 0 Tîm yr Is-adran a Thîm y Gyfarwyddiaeth i gytuno ar raglen gyda'r uwch nyrs er mwyn sicrhau bod digon o amser i alluogi dilyn proses adolygiadau datblygu perfformiad yn effeithiol. e Uwch Nyrs/Cyfarwyddwr Clinigol wedi datblygu amserlen i'r holl staff.	Nyrs Ranbarthol Uwch Nyrs ac Arweinwyr Tîm Cyfarwyddwr yr Is-adran	Rhagfyr 2014 (adolygiad misol o berfformiad a chydymffurfiaeth)
		e Bydd yr agenda ail-ddilysu o fewn nyrsio yn sicrhau y bydd hyn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, bydd y perfformiad a'r gydymffurfiaeth yn cael ei reoli gan y Nyrs Ranbarthol ar gyfer nyrsio.	Nyrs Ranbarthol ar gyfer Nyrsio Corfforaethol	Chwefror 2015
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol				
24	Cynghorir y bwrdd iechyd i fyfyrio ar ddigwyddiadau a nodi tueddiadau i alluogi dysgu. Cynghorir y bwrdd iechyd hefyd i sicrhau bod staff ar lefel Adran, gan gynnwys staff rheng flaen, yn cael eu cefnogi yn dilyn digwyddiadau a bod unrhyw ddysgu sy'n gysylltiedig â digwyddiadau'n cael ei rannu drwy'r tîm.	e Mae Prif Swyddog Gweithredu'n cyflwyno adroddiad ar ofal dirybudd yn ystod cyfarfodydd Bwrdd a gynhelir bob dau fis e Mae'r tîm Gweithio i Wella yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad Gwersi a Ddysgwyd bob dau fis sy'n nodi'r cyfleoedd i ddysgu a'r tueddiadau o ran digwyddiadau neu ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Defnyddir y wybodaeth hon i hysbysu am anghenion hyfforddiant ar draws y bwrdd iechyd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu yn ystod cyfarfodydd tîm rheolaidd gyda staff rheng flaen. Ⓜ Adolygu'r cyfathrebu er mwyn sicrhau bod yr adborth ar gael yn eang i staff.	Tîm Rhanbarthol	Wedi'i sefydlu

25 Pwynt 12	Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu trefniadau diogelwch ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu cymorth ar bob shift.	0 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad diogelwch. © Caiff materion diogelwch a nodwyd bod angen sylw ar unwaith mewn adolygiad eu gweithredu e.e. ailosod clo drws. ® Bydd y Prif Weithredwr yn adolygu gwaith papur i'w ystyried ynglŷn â diogelwch ar y safle ym mis Chwefror. Newidiadau fyddai'n costio 110K i gael eu hystyried.	Cyfarwyddwr yr Is-adran, y Pennaeth Cyfleusterau a'r Pennaeth Iechyd a Diogelwch ar y cyd	Diwedd Ionawr 2015
----------------	---	--	---	--------------------

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
25 Pwynt 13	Dylai fod gan staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol i hysbysu eu harfer, ac o ran y polisi rheoli meddyginiaethau'n benodol.	- Cyn ymweliad AGIC, roedd polisi rheoli meddyginiaethau a pholisi ymarfer proffesiynol y Bwrdd Iechyd wedi'i gadarnhau ac mae wedi'i gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd trwy'r Fewnrwyd ers hynny. - Mae sesiynau hyfforddi'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi'u cynnal	Prif Fferyllydd, Uwch Nyrs ac Arweinydd Clinigol	Cwblhawyd dyddiad adolygu 2017
26 Pwynt 14	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella cyfathrebiad rhwng rheolwyr a'r tîm staff, yn enwedig o ran canlyniadau o archwiliadau a newidiadau i arferion yn yr adran.	- Rhannu digwyddiadau dysgu rheolaidd, gan gynnwys themâu o gwynion / gwybodaeth am wasanaeth gyda staff. Mae Nyrs Arwain Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn rhannu gwybodaeth bob mis â'r adran hon a rhennir y wybodaeth mewn meysydd sy'n weddill o ran Gofal Heb ei Drefnu trwy adroddiadau, cyfarfodydd misol a chylchlythyr. - Y Nyrs Ranbarthol ac aelodau eraill o Dîm rheoli'r Is-adran a'r Gyfarwyddiaeth i barhau i gael presenoldeb Arwain gweladwy o fewn yr adran - Pob archwiliad i gynnwys rheoli perfformiad yn yr Adran ar lefel rhanbarthol a chymryd camau pan fo hynny'n ofynnol e.e. bydd y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn monitro'r cynllun hwn ar y cyd	Uwch Nyrs Arweinydd Clinigol Cyfarwyddwr yr Is-adran Arweinydd yr Is-adran ar gyfer sicrwydd	Wedi'i sefydlu ac yn barhaus
26 Pwynt 15	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu sut ellir storio offer yn ddiogel yn yr adran er mwyn osgoi mynediad heb awdurdod at offer a allai fod yn beryglus. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pryder hwn trwy lythyr sicrhau ar unwaith. Dylid symud y rhannwr ystafell o'r fynedfa ambiwlansys i sicrhau ei bod yn gwbl hygyrch.	Argymhelliad wedi'i weithredu - Rheolwyd cadw offer miniog ar unwaith. - Symudwyd y rhannwr ystafell o'r fynedfa ambiwlansys ar unwaith	Uwch Nyrs Clinigydd Arweiniol iii Tîm Rhanbarthol	3 ^{ydd} Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
27 Pwynt 16	Ar gyfer cleifion pediatrig, plant a phobl ifanc sy'n mynd i'r adran, mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried a yw'r prif fan aros a'r gilfan yn yr uned mân-anafiadau'n briodol a gwneud gwelliannau i ddiwallu anghenion plant a gwella eu cysur, eu preifatrwydd a'u hurddas.	- e Gweler pwynt 1 (tudalen 7) - e Cynhaliodd Pennaeth Nyrsio Plant a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ar gyfer Diogelu adolygiad hefyd - adroddiad ar gyfer y prif weithredwr i'w ystyried ym mis Chwefror	Tîm Rhanbarthol	Ionawr/ Chwefror 2015
27 Pwynt 17	Ar gyfer cleifion agored i niwed, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut mae'n sicrhau y gellir gwella'r amgylchedd ffisegol a staffio er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu'n briodol.	e Gweler pwynt 1 a phwynt 2 (tudalen 7)		
28 Pwynt 18	Dylid llenwi'r llyfr cyffuriau a reolir yn gywir, yn unol â gofynion cyfreithiol. Dylid monitro hyn i sicrhau cydymffurfiaid parhaus. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pryder hwn trwy lythyr sicrhau ar unwaith.	Argymhelliad wedi'i weithredu - e Mae'r broses o staff nos yn ailwrio'r stoc cyffuriau a reolir a'r llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei weithredu. Y Nyrs sy'n Gyfrifol am yr uned sydd ar ddyletswydd yn ystod y nos sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi a'i wneud bob nos. Yr Uwch Nyrs fydd yn monitro hyn. - o Bydd y broses archwilio a sicrhau ansawdd ar gyfer cofnodi cyffuriau a reolir yn cael ei adolygu yn rhan o'r archwiliad fferylliaeth wythnosol. Bydd y canfyddiadau a nodir yn yr archwiliadau hynyn cael eu hadrodd bob wythnos i'r Nyrs Ranbarthol.	Nyrs Ranbarthol Uwch Nyrs Fferyllfa'r Adran	3ydd Rhagfyr 2014 Bob wythnos

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
28 Pwynt 19	Dylid ad-drefnu cyflenwadau Salbutamol er mwyn sicrhau y gall staff gael gafael ar y cryfder cywir yn rhwydd. Dylid storio hylifau mewnwythiennol a chyffuriau anesthetig lleol yn ddiogel er mwyn sicrhau na all unigolion heb awdurdod gael gafael arnynt. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pryder hwn trwy lythyr sicrhau ar unwaith.	Argymhelliad wedi'i weithredu e Mae'r cwpwrdd cyffuriau bellach wedi'i aildrefnu i sicrhau bod Salbutamol o wahanol gryfderau wedi'u cadw mewn gwahanol fannau ar y cwpwrdd. Sicrhawyd bod y cyffuriau i gyd yn y pecynnau cywir, bod y bocsys wedi'u labelu a bod cyflwr y cynhwysyddion hyn yn sicrhau y gellir darllen y labeli'n rhwydd. Dywedwyd wrth yr holl staff bod hyn yn bwysig. Cafodd y camau hyn eu gweithredu gyda chymorth Fferyllydd y ward. Bydd y Fferyllydd yn cynnal archwiliadau annibynnol bob wythnos ac yn cael eu hadrodd i'r Nyrs Ranbarthol.	Uwch Nyrs, Arweinydd Clinigol, Fferyllydd yr Adran, Nyrs Ranbarthol	Cwblhawyd
28 Pwynt 20	Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd ddangos trwy lythyr sicrhau ar unwaith sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau a systemau addas yn cael eu rhoi ar waith o ran storio, rheoli a thrin meddyginiaethau'n ddiogel nawr, ac ar sail barhaus.	Argymhelliad wedi'i weithredu ® Cytunwyd ar ddarparu peiriant gwerthu meddyginiaethau yn yr Adran Achosion Brys a fydd yn gwella rheoli meddyginiaeth ymhellach. Mae'r bwrdd iechyd wedi profi gwelliant yn y broses hon yn sgil cyflwyno'r peiriant gwerthu hwn yn yr uned Asesu Brys.	Prif Fferyllydd, Rheolwr Cyffredinol, Nyrs Ranbarthol, Clinigydd Arweiniol ac Uwch Nyrs	Adolygiad bob 3 mis
		Mae safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau wedi'u hailddosbarthu i bob Nyrs Gofrestredig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau	Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol Nyrs Ranbarthol Uwch Nyrs	3 Rhagfyr 2014

29	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod troliau argyfwng yn cael eu harchwilio'n rheolaidd ac y cymerir camau i sicrhau eu bod wedi'u stocio'n llawn a bod unrhyw eitemau heibio eu dyddiad terfyn yn cael eu taflu.	Argymhelliad wedi'i weithredu Archwiliadau dyddiol ar waith. Bydd yr Uwch Nyrs yn archwilio hyn er mwyn rhoi sicrwydd.	Uwch Nyrs	Gweithredwyd 3 Rhagfyr 2014
30	Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu sut y rheolir risgiau cleifion yn yr adran er mwyn sicrhau bod dogfennau'n cael eu cwblhau'n gyson yn ôl y gofyn er mwyn helpu i gadw cleifion yn ddiogel a rheoli risgiau'n briodol.	® Cynhelir pob asesiad risg a chymerir camau priodol. Bydd yr Uwch Nyrs hefyd yn cynnal archwiliadau ar hap ac yn nodi'r canfyddiadau mewn dogfennau a'u hadrodd i'r Nyrs Ranbarthol. Bydd archwiliadau Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol niferus a dirybudd, ac archwiliadau ar hap gyda'r canfyddiadau wedi'u nodi mewn dogfen yn cael eu trefnu trwy gydol y flwyddyn. Caiff y canfyddiadau eu hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.	Uwch Nyrs a'r Tîm Rheoli Nyrs Ranbarthol	Gweithredwyd ac yn barhaus
31 Pwynt 21	Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod siartiau bwyd a hylif yn cael eu defnyddio a'u diweddarau'n gyson ar gyfer cleifion diabetig a bod unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gofal croen yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.	Argymhelliad wedi'i weithredu - Cododd yr Uwch Nyrs ymwybyddiaeth o ran Gofal Diabetig a'r ddogfennaeth - Mae'r tîm Diabetig yn parhau i gynnal adolygiadau bob dydd.	Uwch Nyrs, Arweinwyr Tîm, Ymgynghorydd Diabetes, Nyrsys Arbenigol Arweiniol	Gweithredwyd 4 Rhagfyr


		e Nyrs Diabetes Arbenigol i gynnal archwiliadau ar hap yn yr adran a nodi'r canfyddiadau er mwyn rhoi sicrwydd.	Nyrs Diabetes Arbenigol	W/D 1 Chwefror 2015
		e Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal archwiliad monitro glwcos Cymru Gyfan ac mae'r tîm profion lleol i gleifion yn eu cynnal er mwyn darparu niwtralrwydd, gwelwyd bod pob canlyniad o'r archwiliadau hynny wedi bod yn gywir, gwneir hyn bob mis.	Tîm Profion Lleol i Gleifion, Nyrsio Corfforaethol	Gweithredwyd Medi 2013
31 Pwynt 22	Dylid diweddaru siartiau glwcos gwaed cleifion yn rheolaidd i brofi bod y staff yn rheoli eu hanghenion triniaeth ddiabetes yn briodol.	0 Archwiliadau dogfenol 0 Uwch Nyrs wedi codi ymwybyddiaeth 0 Archwiliadau ar hap gan Nyrs Diabetes Arbenigol	Uwch Nyrs	Rhagfyr 2014

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (wedi'i brintio): Denise Llewellyn / Jamie Marchant

Teitl: Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio / Prif Swyddog Gweithredu

Signature:



Dyddiad: 2 Chwefror